

ECO'R WYDDFA

RHIF 83

GORFFENNAF 1983

Pris 20c

FFATRI MEWN FESTRI



Lleisiwyd pryder gan nifer o drigolion Llanberis pan ddeallwyd bod hen gapel Preswylfa i'w droi yn ffatri. Ofn mwyaf y trigolion oedd lleoli uned ddiwydiannol mewn ardal breswyl, gyda'r holl oblygiadau yn sgil hynny - e.e. sŵn, diffyg parcio, lorïau. Bellach mae festri Preswylfa wedi ei gweddnewid ac wyth o weithwyr lleol yn cael eu cyflogi yno gan 'Snowdon Mouldings' i gynhyrchu dilladau atal glaw, yn fwyaf arbennig ar gyfer dringwyr, ond hefyd yn cynhyrchu pebyll, bagiau argyfwng ac offer dringo eraill.

Sefydlwyd y cwmni yn 1968 gan Julian Anthoine, i gynhyrchu helmedau diogelwch i ddringwyr. Mae'r gweithdy i'r gwaith hwnnw yn parhau yn Snowdon Street heddiw, a'r offer yn cael eu gwerthu i bob rhan o Brydain gan gynnwys rhannau o Ewrop. Tua tair blynedd yn ôl dechreuodd Mrs Anthoine wneud dilladau atal glaw o'i chartref, ac yna symud yn ddiweddarach i hen ysgol ramadeg Brynrefail lle'r oedd un person arall yn cael ei gyflogi. Pan ddeallwyd bod yn rhaid symud allan o'r adeilad hwnnw cyn diwedd 1982, aethpwyd ati i brynu ac addasu hen gapel a festri Preswylfa. Symudodd y cwmni i mewn rhyw ddeufis yn ôl.

Yn yr hen festri mae'r holl waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd, ond mae'r gwaith o addasu'r capel yn

mynd rhagddo hefyd. Mae maes parcio bychan wrth ochr y capel, a phan fydd y capel yn barod, bydd maes parcio ar gyfer llwytho a dadlwytho nwyddau yno hefyd, gan wneud yn siwr na fydd unrhyw atalfa ar drafnidiaeth ar y strydoedd gerllaw.

Pan gefais sgwrs â'r perchennog yn ystod y mis, roedd dwy swydd yn wag yno - angen gŵr neu wraig i drin peiriant gwnïo ac un math arall o beiriant. Yn wyneb y diweithdra cynyddol yn yr ardal, y syndod yw nad yw'r ddwy swydd wedi eu llyncu gan rywrai'n awchu am waith. Pan gysylltodd yr 'Eco' â'r gwaith ym Mhreswylfa ychydig cyn rhoi'r papur yn ei wely, roedd y ddwy swydd

CODI £103 AT ACHOS DA



Aelodau o'r timau dynion a merched (o bob math!) a fu'n brwydro, a chwarae pêl-droed yn achlysurol, ar gae Eithin Duon, Llanrug yn ddiweddar. Diolch yn bennaf i Jill - a drefnodd bethau ac i'w ffyddloniaid yn nhafarn Glyntwrog, llwyddwyd i gasglu £103 i gronfa MENCAP.

FFILMIO YM MRO'R ECO

Ar y seithfed o fis Mehefin roedd Tafarn Rhythallt (Pen Bont) Llanrug wedi cau i'w ffyddloniaid, a gwelwyd cymeriadau mewn gwisgoedd o'r pumdegau yn crwydro o gwmpas buarth y dafarn. Rhai o'r criw a oedd yn ffilmio cyfres newydd ar gyfer S4C oeddynt - telediad allanol gan Gwmni Tir Glas o lyfr poblogaidd y Parch Harri Parri, Caernarfon - 'Hufen a Moch Bach'. Darlledwyd y straeon ar y radio eisoes, gyda Charles Williams yn eu darllen. Ef hefyd sy'n chwarae rhan Heidden Sur (Dafydd Roberts) yn y gyfres deledu.

Addaswyd y straeon ar gyfer y sgrin gan yr awdur ei hun, a bydd y chwe phennod o hanner awr yr un yn ymddangos ar y sgrin yn ystod gaeaf '83-84. Ifan Roberts yw'r cynrychyd, ac y mae'r rhan fwyaf o'r golygfeydd allanol wedi eu ffilmio yn ardal yr 'Eco'. Tybed faint o'r

gwylwyr fydd yn adnabod Garej Groeslon Marc, Llanrug fel Garej Wil Pwmp, neu Parciau Rhos, Bethel fel 'Heidden Sur'? Bydd ffilmio hefyd ym mynwent Llanddeiniolen ac ym Mhentir.

Bydd y gwaith ffilmio allanol yn cymryd tua dau fis i'w gwblhau, ac ymhlith yr actorion yn ymddangos bydd J.O. Roberts (Edwards y Felin), Trefor Selway (Ifans Coparet), Myrddin Jones a Gillian Elisa Thomas (Parch a Mrs Eilir Thomas); Mici Plwm (Dyn Tarw Potel) a Dyfan Roberts (Harri Claddu Pawb).

Os y ceir cystal hwyl ar y gyfres deledu ac a gafwyd ar y rhaglen radio, mae'n sicr y bydd galw mawr am ychwaneg o straeon tebyg, ac efallai y gwelir mwy o ffilmio yn yr ardal mewn amser i ddod. Yn sicr, ni ddylai ffyddloniaid Pen Bont warafun un diwrnod ar gau!




Ar y set yn 'Penbont'

ORGAN CAPEL PRESWYLFA

Yn sgil y newidiadau a'r adnewyddu yng nghapel Preswylfa, bu'n rhaid tynnu'r organ o'i safle yng nghefn y pulpud. Mae'r holl beipiau wedi eu tynnu'n ofalus a'u rhifo. Cynigiwyd yr organ yn rhad ac am ddim i gapeli y pentref, ond nid oedd yr un ohonynt ei hangen. Cysylltwyd â'r Amgueddfa Genedlaethol trwy Oriel Eryri, ond nid oeddynt hwythau â diddordeb yn yr organ. Mae'n ymddangos bellach y bydd yn rhaid gadael i'r organ fynd allan o'r ardal gan fod prynwr hen ddodrefn wedi dangos diddordeb ynddi.

Yn ogystal â'r organ, mae tua dwsin o rosod plastr oddi ar nenfwd y capel wedi eu tynnu oddi yno'n gyfan, gan gynnwys yr un mawr ar ganol y nenfwd. Mae'r rhain i'w cael yn rhad ac am ddim i unrhyw un sy'n foddol eu cario oddi yno.

Cysylltodd yr 'Eco' ag Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac â'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan ynglŷn â'r organ.



YCHYDIG O SEIBIANT

Cofiwch na fydd rhifyn mis Awst o'r Eco. Yn ôl yr arfer, bellach, mae gweithwyr yr Eco yn cymryd hoe yn ystod Gorffennaf a dechrau Awst cyn ailgydio yn yr awennau gyda rhifyn Medi. Pob hwyl i bawb yn ystod gwyliau haf yr ysgolion.

ECO'R WYDDFA

RHIF 83
GORFFENNAF 1983

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd
Whiteside Tomas, Bron y Nant,
Pontrhyallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION: Tony
Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys,
Penisrwaun (Llanberis 872438)

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,
Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Miss Jane
Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,
Ffordd Capel Coch, Llanberis
(871561)

FFOTOGRAFFWYR: Ifan Parry,
Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321)
Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf
Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
(Caernarfon 77163)

Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn
Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John
Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn
Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy
Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,
Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:
Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon
3227)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl
i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa
(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO:

DEINIOLLEN: Mrs Nancy Rowlands,
12 Pentre Helen (Llanberis 870267)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro
Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Siân Thomas, Tŷ'r
Ysgol (Llanberis 870220)

NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,
Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PENISARWAUN: Mrs Mary Davies, 9
Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)

TAN-Y-COED: Miss Megan
Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed
(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir
Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf
o'r wasg

MEDI 1

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

AWST 23

os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

Dod â ddoe yn ôl

Annwyl Olygydd,

Fe ddaeth atgofion melys yn ôl i mi wrth ddarllen hanes Mr Huxley Thomas yn eich rhifyn Mehefin. Mae gennyf gof plentyn amdano yn cyfeilio mewn eisteddfodau yng Nghwm-y-glo, a hefyd mewn practis côr yn Neuadd y Cwm, ac fe roeddwn yn sefyll wrth ochr y piano yn troi tudalennau iddo, ag yn edmygu ei ddawn. Roedd fy mam (Lizzie Jane Jones) yn aelod o gôr Llanberis yn y cyfnod pan oedd Mr Thomas yn gyfeilydd iddynt. Roeddynt yn cystadlu ar hyd a lled Cymru, a chôr Benbedw yn cystadlu yn eu herbyn ambell waith. Cofiaf Mr Thomas yn dod i'n tŷ ni Noddfa Cwm-y-glo a minnau newydd gael piano, a dyma fo yn cael tro arni. Roedd ei feibion, yr efeilliaid George ac Elgar yn sefyll wrth ochr y piano. Doeddwn fawr o feddwl y buaswn yn cyfarfod Elgar ymhen blynnyddoedd maith wedyn yn ysbyty Abergele yn gweini yn dyner a gofalus iawn ar fy nhad, William Joseph Jones, pan oedd yn bur wael. Gyda llaw rwyf bron yn siŵr fod fy nhad wedi bod yn gweithio yn lard y chwarel run pryd â Mr Thomas. Gobeithio y caiff flynyddoedd eto i roi pleser a bendith i rai sydd yn cael y fraint o wrando arno wrth yr organ. Diolch i chwithau Eco'r Wyddfa, am ddod â ddoe yn ôl i minnau ddarllenwyr, yn arbennig i ni y Cymry ar wasgar.

Yr eiddoch yn gywir iawn,
(Mrs) Catherine E. Roberts
7 Oxley Links Rd.,
Oxley,
Wolverhampton

Pileri Llechi

Annwyl Olygydd,

Yr ydym yn yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan yn awyddus i ddarganfod cyflenwadau o bileri llechi at ffurfio cloddiau pileri. Y mae angen tua thri chant o bileri arnom i orffen ffin cae sy'n amgylchynu bwthyn Llainfadyn ar dir yr Amgueddfa. Os oes gan eich darllenwyr naill ai gyflenwad ail-law o'r uchod neu wybodaeth amdanynt cystyllter ag
Elfyn Scourfield,
Ceidwad Adran Amaethyddiaeth a
Bywyd Gwledig,
Amgueddfa Werin Cymru,
Sain Ffagan,
Caerdydd. CF5 6XB

DAVID A ROBERT H. DAVIES

Annwyl Olygydd,

Yn y rhifyn diwethaf o'r Eco cyfeiriodd Mr Cecil Owen, Gaerwen at fy ewythr, David H. Davies, Tyn-y-fawnog, a oedd, gyda'i frawd Robert H. Davies - yntau hefyd yn 'missing' yn Ffrainc yn 1916! Dyma fel y canodd eu brawd William er cof amdanynt.

Yn gywir,
Florrie Davies,
Felin Bach

DEIGRYN HIRAETH

O mor dda f'ai gennyf glywed
Na bydd ymladd mwy i fod,
Sŵn magnelau wedi tewi,
Heddwch eilwaith wedi dod;
Ond bydd gadael tir y gofid,
Wedi'r oll yn friw i'm bron,
Pan ond cofio fod yn huno
Frodyr yn y ddaear hon.

O na allwn drwy rhyw ddyfais
Gael ond golwg ar eu gwedd,
Neu cael cyfle cyn ymadael
I roi blodau ar eu bedd;
Buan gasglwn flodau'r ddaear,
Berlau glân, perffeithiaf Duw,
Ac mewn galar awn i dywallt
Ddagrau pur i'w cadw'n fyw.

Pan â'r stormydd blinion heibio,
Sŵn magnelau eto'n fud,
Oria'u'r rhyfel wedi eu rhifo,
Glas y nen uwchben y byd;
Pan ddaw adeg hwylio adref
Eto, i dir ein hannwyl wlad
Gwelaf gwmwl eto'n cuddio
Gwir obeithion mam a thad.

Prudd oedd aelwyd Tyn-y-fawnog,
Bore'r cefnu ar eu hól
Ond roedd gobaith dan y prudd-der
Cawsai'r ddau ddod adre'n ôl.
Pwy feddyliodd bore'r cefnu -
Bore gobaith dwfn y ddau
Ow! fod saethau llymion angau
Drwy y gwyll yn agoshau.

Pan oedd bywyd yn ymagor
Cyn i'w haul weld canol dydd
Ysgafn fron ac iach eu hysbryd
Gwrid y rhosyn lanwais eu grudd;
Gwys ddaeth iddynt fel y lliaws,
I roi llais i ormes byd,
Er mor drwm, nawr rhaid oedd siglo
Llaw, â'r llaw fu'n siglo'r crud.

Chwilio bwm ym mysg y beddau
Yn y wlad collasoch chwi
Llawer ennyd dreuliais ynddynt
Er mor drwm oedd hynny i mi.
Wedi darllen ar y croesau
Enwau dewrion Gwalia Wen,
Methais ganfod, er fy ngofid
R'man 'rych chi'n rhoi pwys eich pen.

Os mai gwag yw'r aelwyd hebddynt,
Os ar goll yng nghyfrif gwlad,
Nid amheuaf nad yw'r enwau
O dan sêl ar lyfrau'r Tad.
Os na feddai'r ddaear egwan
Allu a nerth i'w cadw'n fyw,
Yn lle cledd, roedd yn eu haros
Delyn aur yn ninas Duw.

WILLIAM H. DAVIES,
Tyn-y-fawnog

Mae hyn yn hen arferiad
Yn awr ers amser maith
Cydnabod ein cydweithwyr
Wrth droi eu cefn o'r gwaith
A dyna welir heddyw
Mewn adrodd, cân, a llên
Wrth roddi ffon yn anrheg
I Ritchard Jones Fachwen.

Cymysgylid ein teimladau
Fel hyn wrth ganu'n iach
I'r gwron fu yn gyrru
Olwynion y tren bach
A sieryd ei gyfeillion
Yn uchel am ei fri,
A hwythau'r hen domennydd
Lawn cymaint â'm un i.

Daeth yma o Brynsiencyn
Yn llencyn bychan tew,
Ond dywed Twm Tŷ Powdwr
Mai yma fagodd flew
Ond nid yw bwys am hynny
Gwna gamp i Owen Tom
Sef aros adra i rodio
Yn nghwmni Fair a'i ffon.

Bu yma am flynyddoedd
Yn gyrru'r injan bach
A'i wyneb fel y fagddu
Ond calon lân ac iach
Fe ganai yn y ddrycin
Pan fyddai pawb yn syn
A'i hobi ef a'r sargent
Oedd poeni gŵr Penllyn.

Sawl bore du ymlwybrodd
Cyn canu corn y gwaith
Mewn trefn i gael 'Maid Marian'
Yn hwylus erbyn saith
Esgynai mil o wreichion
I entych lân y nen
Pan fyddai'r shed yng ngofal
Y dreifar o Fachwen.

Bun hwylus a llwyddiannus
Gofalus gyda'r brac
A'i chwiban oedd fyddarol
Y teithwyr ar ei drac
Bu hwn yn Royal driver
Un tro i Prince of Wales
A dywed Wil Jos y llwythwr
Mai felly cadd ei bres.

Os am gael rhai o'i driciau
Gofynnwch i Bob Huws
Fe ddylai fod mewn transport
Am oes ta hynny haws
Fe werthodd lo du gwrw
I weddw Dic y dre
A dywedodd ar ei farw
Mai fanw oedd efe.

Ond bellach yn lle rhedeg
Y rwbwl tua'r tip
Caiff fyned gyda Mary
Mewn motor bach am drip
Yn lanach ei olygon
Nas gwelwyd ef erioed
Yn harddach ac yn wynach
Na'r eira ar y coed.

JOHN H. DAVIES,
Felin Bach, Dinorwig.

Penillion a ddarllenwyd yng
nghyfarfod ymadawol Richard
Jones, Fachwen Farm, Mehefin 1932.
Roedd Mr Jones sef Dic bach dreifar
fel y'i gelwid gan hogiau y chwarel yn
gymeriad caredig a direidus. Gwaith
y tren bach oedd cario llechi o shed
Allt Ddu i Mills a hefyd gario baw i
ben y domen a phob peth oedd yn
angenrheidiol ei gludo i Allt Ddu.

Heddiw mae peiriannau mawr yn
gwasatatau y tomennydd ac mewn
ychydig amser bydd shed y tren bach
a'r rheilffordd wedi diflannu am byth.



Richard Jones yw'r dyn sydd ar y dde
yn y llun uchod.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D

L

PRITCHARD

43 glanffynnon LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran
Drafnidiaeth

Rheolau'r Ffordd Fawr

Cwis yn ymwneud â Diogelwch ar y Ffordd a gwybodaeth am eich cerbyd, gan Alwyn Jones, Racca, Penisarwaun.

1. Dylai croesfan Sebra gydag ynys yn y canol gael ei chyfri fel dwy groesfan.
(a) Cywir; (b) anghywir
2. Ni ddylai rhaff lusgo fod ddim mwy na
(a) 3 a hanner medr; (b) 4 medr; (c) 4 a hanner medr; (d) 5 medr
3. Beth yw y cyflymdra uchaf y gallwch ei deithio ar ffordd gyffredin lle nad oes gwaharddiad ar gyflymdra.
(a) 50 m.y.a.; (b) 60 m.y.a.; (c) 70 m.y.a.
4. Yr ydych yn teithio ar y ffordd. Beth yw'r arwydd cyntaf fod eich fanbelt wedi torri.
(a) Golau coch yn dod ymlaen
(b) Y peiriant yn gorboethi
(c) Dim pwysau olew
5. Yr ydych yn agosau at groesfan belican ac mae'r golau melyn yn fflachio. Pa un o'r rhain y dylech ei wneud.
(a) Arafu a mynd ymlaen efo gofal
(b) Rhoi blaenoriaeth i gerddwyr
(c) Gyrru ymlaen
6. Mae un llinell felen yn rhedeg yn gyfochrog â'r palmant yn golygu:

- (a) Dim parcio o gwbl
(b) Dim parcio yn ystod y dydd, saith diwrnod o'r wythnos
(c) Dim parcio yn ystod dyddiau gwaith
7. Am sawl blwyddyn y mae ardystiad (endowment) yn aros ar eich trwydded yrru ar ôl i chi gael eich dyfarnu'n euog o dan ddeddf prawf anadl (breathalyser)
(a) 5 ml; (b) 4 bl; (c) 7 bl; (d) 11 bl.
8. O dan ddeddf trafndiaeth 1981 dylai plentyn cyn y gall deithio yn sedd blaen modur fod yn
(a) 10 oed; (b) 12 oed; (c) 14 oed; (d) 16 oed
9. Yr ydych yn taro plentyn i lawr gyda'ch cerbyd o dan y ddeddf Yswiriant; pwy yw'r 'trydydd person'?
(a) y chi
(b) y cwmni yswiriant
(c) y person a anafwyd
(d) person a oedd yn digwydd bod yn ymyl
10. Y mae'n bwrw'n galed ac yn bur dywyll. O dan y ddeddf goleuadau pa un sy'n debygol o gael ei gyhuddo mewn damwain o'r fath:
(a) Gyrrwr heb ddim golau ar ei gerbyd
(b) Gyrrwr gyda golau bach a mawr
(c) Gyrrwr gyda golau bach yn unig

BLE 'ROEDD Y GAREJ



Pwy all roi gwybod i ni ble'r oedd y garej hon?

Arholiadau Cerddoriaeth Coleg Cerdd y Drindod, Llundain

Bu'r canlynol o blant bro'r 'Eco' yn llwyddiannus yn eu harholiadau dan nawdd y coleg uchod.

Canu'r piano - Gradd I: Catrin Gwyn, Min y Nant, Cwm-y-glo (teilyngdod); Gradd II: Einir Gwyn, Min y Nant; Gradd III: Nerys Ann Williams, Llwyncoed, Cwm-y-glo; Elen Wyn Roberts, Afon Rhos, Llanrug (teilyngdod); Caron Haf Jones, Tai Orwig, Brynrefail (teilyngdod); Gradd V: Meinir Wyn Jones, Trem Eilian, Brynrefail; Gradd VI: Helen Mair Jones, Tai Marian, Deiniolen (teilyngdod).

Arholiadau ysgrifenedig: Gradd III: Einir Gwyn (teilyngdod); Gradd II: Catrin Gwyn (anrhydded) ac Olwen Meredydd Jones, Llys Myfyr, Bethel (anrhydded).

BRYNREFAIL

PENLLYN - Mewn cyfarfod ym mhencadlys y bwrdd dŵr ym Mhenrhosgarnedd Mehefin 15, cafwyd sicrwydd nad oes yr un cynllun i wahardd y cyhoedd rhag mynd at lannau'r dŵr ym Mhenllyn. Mae'r unig waharddiad yn ymwneud â chychod a chanws - ni chaniateir lansiad ym Mhenllyn - a dim ond cychod pysgota a ganiateir ar y dŵr hyd at Graig y Wylfran, lle mae bwis (buoys) yn llinellu'r gwaharddiad i ganws a chychod eraill.

LLONGYFARCHIADAU i Janet Elizabeth Jones o Dreemilian ar ei derbyn ar gwrs llawn amser yng Ngholeg Gwynedd, Bangor. Bydd y cwrs yn ymwneud â gofal teulu a chartref, a dymunwn bob llwyddiant i Janet.

HELFA DRYSOR, a drefnwyd gan Gwyn a Pat Mowl a Ken a Blodwen Mowl ar Fehefin 24. Cyrhaeddodd pawb yn ddiogel i westy'r Foelas yn Llanrug. Enillwyd yr Helfa gan Mr Gwyn Hefin Jones, ac ef fydd yn gyfrifol am drefnu yr ornest yn 1984. Eurwyn Williams oedd yn ail, a Maldwyn Jones yn drydydd.

Yn awr cewch edrych ar yr atebion i gael syniad o'ch gwybodaeth a'ch synnwyr cyffredin.

Atebion

1. b. Os nad oes gwybodaeth yn yr ystyr hyspysu fel un.
2. c. 3. b. 4. a.
5. b. 6. c. 7. d.
9. c. 8. c.
10. c. Wrth ddeffnyddio golau bach yr ydych yn cyfrifod fod golau yn aengreiddio.

TRIP YSGOL SUL - yn mynd am y Rhyl Gorffennaf 16. Bydd y bws yn gadael y bont am 9 o'r gloch. Derbynnir enwau gan Carol Houston, ynghyd â thâl o £2.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas, cafwyd adroddiad o'r gynhadledd yn Llundain gan Carol Houston a Pat Jones. Hwy hefyd a fu'n gyfrifol am luniaeth ar y noson. Rhoddwyd anrheg y mis gan Mrs Hasson ac fe'i enillwyd gan Val Davies.

CLWB Y MAMAU - Yng nghyfarfod y mis ar Fehefin 9, cafwyd darlith ar ymarfer corff gan Mrs Sue Daley. Darparwyd y te gan Val Davies a Mrs Griffiths, rhoddwyd anrheg y mis gan Moira Ellis ac fe'i enillwyd gan Jennie Williams.

CLWB PEDWARUGAIN - Enillwyr mis Mai:

Mai 6: 1. Betty Owen (Tros Afon), 2. Megan Jones, 3. Seth Thomas.
Mai 13: 1. Rhian Jones, 2. Priscilla Collius, 3. Audrey Roberts.
Mai 20: 1. Helen Jones, 2. Jackie Jones, 3. John Orwig Jones.
Mai 27: 1. Meurig Jones, 2. Sylfia Williams, 3. Peggy Davies.

MARWOLAETH - Ar fynd i'r wasg, daeth y newyddion trist am farwolaeth Mrs K. Pritchard, Glyn Afon. Yn gymeriad siriol a phoblogaidd, yr oedd wedi hiraethu'n ddwys ar golli ei phriod rhyw flwyddyn a hanner yn ôl. Bydd ein colled yn y pentref ac yn y capel yn fawr iawn, a chydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

DIOLCH - Dymuna Mr G. Hughes, Bryn Garth ddiolch o galon i'w ffrindiau a'i gymdogion am eu caredigrwydd tuag ato yn ystod ei salwch yn ddiweddar.

CWPAN ECO'R WYDDFA

Cystadleuaeth bêl-droed 6 bob ochr, i blant oedran Ysgolion Cynradd i bentrefi bro yr Eco.

**Ddydd Mercher, Gorffennaf 13eg
am 6 o'r gloch ar gae chwarae
Ysgol Gynradd Llanrug**

Gobeithir cynnal y gystadleuaeth ar ffurf cynghrair er mwyn sicrhau mwy nag un gêm i bob tîm (mae hyn yn dibynnu ar y nifer o dimau). Gwahoddir ceisiadau gan y pentrefi sydd heb ymateb hyd yn hyn drwy gysylltu â'r isod cyn **dydd Gwener, Gorffennaf 8fed**.

**Edward Elias, Gwên-y-Wawr, 21 Glanffynnon, Llanrug
(Ffôn: Caernarfon 3719)**

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3248
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

STORFA

Mace

**O.R. & M.
PARRY**

**Sgwâr
Llanrug**

Caernarfon 2790

Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis 871210

Crefftau llechi: arlunwaith, claciau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol. **Arddangosfa o hen luniau chwarel.**

Ar agor 9.30 am - 9.30 pm

Galwch i weld Gwil wrth ei waith ym Mharc Padarn, Llanberis

Agor

Ffiniau'r Gorffennol

Basgedaid o 'Flodau'r Gynghanedd'

Beth gawn yn well ar amser yr Eisteddfod Genedlaethol na basgedaid o 'Flodau Barddoniaeth' a chofio'r beirdd?

BORE OES

Bore oes, O mor brysur - y gwibia
Gobaith ar ei antur:
Canai lai pe gwelai gur
Y blodau dan ei bladur.

ELFED

Bore oes, er mai berr yw,
Eden ein bywyd ydyw.

TANYMARIAN

Cu fore oes, caf fawrhau
Ei ddifflin heddd feddyliu.

GWILYM DEUDRAETH

Bore einioes, byw rhinwedd,
Tua'r nawn sy'n troi yn heddd:
A draen yn hydre' einioes
Yw wario rhan ora'r oes.

GWILYM HIRAETHOG

Byw i'r lon loywbwr einioes
A ddaw â heddd ddiwedd oes.

GWILYM ERYRI

Ifanc, at ifanc a ofyn,
Henaint at henaint y tynn.

SION PHYLIP

... niwl a gilia
Yw bore oes, heibio'r â.

SION WYN O EIFION

DIOGI

Os yw gŵr yn segura,
Ni fydd o un defnydd da.

DEWI WYN O EIFION

Lle cerddo llesg ei hesgair,
Ni chyfyd nag yd na gwair.

GORONWY OWEN

Nid gŵr doeth, yn boeth ei ben
Drafaelia i 'dŷ'r falwen'.

TREBOR MAI

'Boneddwr' heb un eiddo - yw'r diogyn,
Ar adegau'n gweithio:
I ŵr o dras a'i urddas o,
C'wilydd yw hyn, 'rwy'n coelion.

IOAN BROTHEN

DYN

Breuddwydiwr o bridd ydyw.

DAFYDD DDU ERYRI

Mor fawr yw'th 'wyllys, mor fyr yw'th allu.

GWILYM

ADERYN Y TO

Drwy'i fuander o fondo - daw i'n dôr,
Yn edn â dawn cadno;
Un di-gân yn mud gwyno
A lleidr taer yw'r Llwyd o'r To.

R.E. JONES (Cyngar), Llanberis

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Y GWCW

Dacw'r Gwcw las ei haden!
Clyw hi yn y coed!
Mae ei deunod ysgafn llawen,
Dlysed ag erioed!

Dros y moroedd, dros y tonnau,
Hedodd atom ni:
Fel y gwanwyn, fel y blodau,
Siriol ydyw hi.

Ple bu'n taro o gur y gaeaf?
Pwy fu'n dysgu hon,
Ddaeth i ganu mor ddi-anaf
Leni'n medw'r fron?

J.D. RICHARDS, Trawsfynydd

YR EISTEDDFOD

Pan fyddo'r hwyrdydd yn nesáu
A'r meddwl ar ddisberod,
Melys fydd cofio am yr awr
Y gwelwyd rhyfeddodau mawr
Trwy rinwedd cae'r Eisteddfod.

BRINLEY RICHARDS
(Buddugol yn Wrecsam)

Y BWTHYN BACH TO GWELLT

Gan Mrs Jennie Maud Griffith,
Llys Meredydd, Tanycoed,
Llanrug y cefais gopi o'r hen gân
yma. Bu gynt yn boblogaidd
iawn. Diolch i Mrs Griffith.

Mi gollais fy nhad, mi gollais fy mam,
Pan oeddwn yn blentyn bychan:
Nid wyf yn cofio dim am yr un
O'r ddau, oedd mor annwyl o'u baban.
Cymerwyd fi gan fy nain meddent hwy
Yng nghanol ystorum o fellt:
A magwyd fi gan fy nain ar y plwy
Yn y bwthyn bach to gwellt.

Pan y byddai'r rhew a'r eira gwyn
O amgylch y bwthyn bychan,
Eisteddwn yn ddedwydd ar y stol fach
A chanwn ar ben y pentan:
A fy nain yn dysgu adnodau i mi
Yng nghanol ystorum o fellt,
Rhyw nefoedd fach i mi a fy nain
Oedd y bwthyn bach to gwellt.

Fel y byddwn yn chwarae o gwmpas yr
ardd
Cartrefle y diwyd wenyn;
A difyr y treuliais i lawer awr
I chwilio am nyth yr aderyn.
Mae hiraeth dwys yn fy nghanol brudd
Nes ydwyf bron myned yn ddellt,
O na bawn eto yn blentyn fy nain
Yn y bwthyn bach to gwellt.

Fel y byddwn yn myned gyda fy nain
Trwy'r ddol gan ei galw'n nani
A hithau mewn hiraeth dwys am fy mam
A'i chalên oedd gynt yn fy ngharu;
A gyda hi byddwn i ym mhob man
A'm dillad yn wynion a glân,
Ond erbyn hyn mae fy nain yn y llan
Yn huno yn y graean mân.

CYTGAN:

Pan yn rhoio fyddai'r daran
Ac yn gwibio fyddai'r mell
O rwy'n cofio fel y llechwn
Yn y bwthyn bach to gwellt.

CRYCH ELEN (Yr awdur)

TAN-Y-COED

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs
David Williams, Bryn Hyfryd ar
enedigaeth eu hail wyres, Samantha
Ellen, merch i Mr a Mrs Trevor G.
Dawn (Carys), Manor House Farm,
Hampton Heath Malpaf, Sir Gaer.
Dymuniadau da'r ardali Samantha
a'i rhieni.

LLONGYFARCHIADAU i Rebecca
Ann Hughes, Rallt Deg, a Lona Pierce
Roberts, 4 Tai Minffordd ar ennill
Gradd 1 yn Arholiad Canu'r Delyn a
eisteddasant yn ddiweddar.

CROESO CYNNES yr ardali i Mr a Mrs
Sion Humphreys, eu dwy ferch
Siwan 5 oed, Gwenan 3 oed, a'u mab
bychan Guto, 3 mis oed. Pob bendith
iddynt yn eu cartref newydd.

GWASANAETH - Bnawn Sul,
Mehefin 19 cafwyd gwasanaeth
arbennig yng Nghapel Tan-y-Coed, -
gwasanaeth i'r plant, gyda'r Parch
W.O. Roberts yn gwasanaethu. Ar
ddiwedd y gwasanaeth
gwobrwywyd 14 o'r plant am eu
llwyddiant yn Arholiadau Ysgol Sul
M.C. Arfon.

NANT PERIS

S4C - Nos Fercher y 15fed o Fehefin
wedi chwe mis o ddisgwyl fe ddaeth
yn bosib cael rhaglen S4C yn y Nant.
Edrychwn ymlaen i fwynhau clywed
y Gymraeg unwaith eto ar y teledu
wedi cyfnod hir o ddim ond Saesneg.
Diolch i bawb a fu yn gymorth i
sicrhau y gwasanaeth.

YMDDIHEURWN i Hefin Tŷ Isa am i'w
enw ymddangos fel Kefin yn yr Eco
diwetha', wrth ei longyfarch ar ei
ben-blwydd.

TRIP - Cafodd plant dosbarthiadau
ucha' ysgol Dolbadarn wibdaith i
Alton Towers ddydd Llun a phawb
wedi mwynhau eu hunain yn fawr
mewn tywydd ffafriol iawn.

Bydd gwibdaith yr ysgol Sul yn
mynd i'r Rhyl ar Orffennaf 9fed.
Croeso i bawb ymuno

Hefyd bydd carnifal y Nant yn cael
ei gynnal nos Wener Gorffennaf 22.
Dowch yn llw i gefnogi y rhai sydd yn
paratoi ac yn cymryd rhan yn y
gweithgareddau.

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

PENISAR - WAUN

TRIPIAU'R YSGOL - Erbyn y daw'r
rhifyn hwn o'r Eco i'ch dwylo, bydd
Dosbarth y Babanod, ynghyd â
phlant yr Ysgol Feithrin, wedi bod yn
ymweld â Melin Ddŵr Cochwillan a
Sŵ Plas Coch.

Bydd plant yr Adran Iau wedi bod
yn ardal Ardudwy, yn ymweld â Maes
Artro, Capel Salem a'r Bermo.

NEWID YSGOL - Dymunir yn dda i'r
14 o blant sy'n gorffen eu gyrfa yn
Ysgol Tan y Coed yr haf yma;
gobeithir y byddant yn hapus yn yr
Ysgol Uwchradd o fis Medi ymlaen.

UNDEB Y MAMAU - Cafwyd noson
goffi, nos Lun Mehefin 6, ac fe
anfonwyd £29.84 tuag at Gymorth
Cristnogol. Diolch i bawb gefnogodd
y noson hon.

CLWB YR HEULWEN - Treuliwyd
pnawn difyr Mehefin 21 yn gwrando
ar Miss N.W. Jones, Dinorwig yn rhoi
hanes hen siopau Deiniolen.
Rhoddwyd y te gan Mrs G. Lewis.
Enillodd Mrs Nesta Jones y Raffl.
Diolchodd Mrs Betty Evans i'r wraig
wadda diolchodd Mrs P. Williams am
y te. Dymunwyd adferiad buan i Mrs
G. Thomas, Tai Newyddion sydd
wedi cael llawdriniaeth ym Mangor, a
da oedd clywed fod Mrs N.M.
Pritchard wedi dod o'r ysbyty. Nid
ydyw Mrs S. Humphreys, y Winllan,
wedi bod yn dda iawn yn ddiweddar.
Dymunir gwellhad iddi hithau.

LLONGYFARCHWN Mrs N. Roberts,
Vine Cottage, ar fod yn hen nain.
Llongyfarchwn hefyd Eurgain Haf ar
ei llwyddiant mewn arholiad gyda'r
piano.

EYMUNWN wellhad buan i Mrs Jean
Roberts, 6 Bryn Eglwys, sydd wedi
cael llawdriniaeth.

CYDYMDEIMLWN â Mrs I. Jones,
sydd wedi colli ei chwaer yng
nghyfraith yn ddiweddar.

DIOLCHIADAU - Mae Mrs N.M.
Pritchard, 4 Tai Brynhyfryd eisau
diolch am bob caredigrwydd ac am y
cardiau a dderbyniodd tra bu yn yr
ysbyty.

A'r un yw diolch Mrs M. Thomas,
Bod Awen, am y llu cardiau ac
anrhegion a dderbyniodd ar ei phen
blwydd yn 80 oed.

Hefyd carai Mrs M. Roberts, Pen y
Gaer, ddiolch o galon am bob
caredigrwydd a chydymdeimlad
ddangoswyd tuag ati yn ei
phroffedigaeth o golli ei phriod, y
diweddar Hughie Roberts.

DIOLCH - Dymuna Mrs Nesta Jones,
2 Llys y Gwynt, ddiolch i'r oll o'i
pherthnasau a chyfeillion am yr
anrhegion a'r cardiau niferus a
dderbyniodd ar ddydd ei
phenblwydd. Diolch yn fawr.

CARNIFAL - Cofiwch am wythnos y
Carnifal Gorffennaf 11-16. Dyma
ychydig o fanylion:

Nos Lun, Gorffennaf 11 - Bingo yn
Neuadd yr Eglwys

Nos Fawrth, Gorffennaf 12 - Cae King
- Pêl droed

Nos Fercher, Gorffennaf 13 - Noson i
blant yr Ysgol Gynradd - pêl droed,
rownderi


Nos Iau, Gorffennaf 14 -
Mabolgampau - Cae King

Nos Wener, Gorffennaf 15 - Carnifal,
6.30

Nos Sadwrn, Gorffennaf 16 - Helfa
Drysor, 7.00

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

YN Y FEIS

gan y Gwalch

Roeddwn i wedi cael darn at fy mwthyn, ac nid cyn pryd, achos doedd gen i ddim congl i molchi heb ddwad â phadall at y tân, ac mi roeddwn i ofn mynd i'r afon, rhag ofn i bobol fy ngweld i yn tynnu amdana, a mynd â fi i ffwr.

Ond fuo yna rioed enill na fuo yna gollad. Dyma fi'n cael llythyr oddi wrth y Politburo yn deud fod yna rhyw swyddog am alw i weld y lle i'w ail drethu o - ac mi ddoth - rhyw ddynas ddigon bras, wedi ei mhewnfurio, mi ddeallais wedyn, yn arbennig ar gyfar y swydd honno, fel tasa yna ddim digon o ferched ar gael yn barod yn medru cabalatchio cystal â neb, a hynny yn Gymraeg.

Mi steddodd, a thynnu bwndal o bapura allan o'i bag, ac yn eu plith nhw roedd fy ngwrthwynebiad i i'r codiad, oedd gyda llaw, wedi bod yn ei meddiant hi ers blwyddyn. Ac yr oeddwn i wedi crybwyll yn arbennig am y spwrial, oedd yn y cyfnod hwnnw, yn domenydd yd y fan yma, yn denu pïod a thrugaredda, ac unwaith mi ddalis rhyw hen hipi, a locsyn fel drws beudy ganddo fo, at ei sgwyddw yn fy mag i, ac yr oeddwn i'n meddwl yr adag honno, os oeddwn yn bwriadu byw ar fy sparion i, ei bod hi wedi mynd yn fain gynydeiriog arno fo.

A dyma'r ddynas wedyn, yn mynd i hwyl, a deud sut yr oeddwn nhw yn trethu pobol tu draw i Birmingham a lleoedd pell y byd, fel tasa hynny rhyw ots i mi, a dyma hi'n deud nad oedd y trethi yn cael eu gwario yn arbennig ar glirio spwrial a llau ochr y lôn. Os oedd y Politburo yn blysio gwledd Glangaea, neu bod nhw yn penderfynu fod sgidia'r maer isio eu gwadnu, roeddwn i yn un i fod i deimlo fo'n anrhydedd cael cyfrannu.

Wedyn, dyma hi'n mynnu mynd i'r llofft i edrach sut lanast oedd gen i yn y fan honno, ond es i ddim i'w chanlyn hi, rhag ofn i mi roi'r argraff mod i flys bargeinio am ostyngiad.

Pan ddaeth hi i lawr dyma hi'n deud, os oeddwn i flys mynd â'r matar gam ymhellach, y basa yn rhaid i mi fynd i'r dre i wynebu treibiwnal, ac mi es, a mynd â chyfaill hefo fi - a fy ngwraig - rhag ofn i rhywun ama fy mod i wedi methu byw efo honno. Roedd y busnas hwnnw yn cael ei gynnal mewn rhyw oruwch ystafell eang, a'i llond hi o feicroffons a meincia, ac yn dwyn ar gof yr ystafell honno lle cafodd y Jerris rheini, ddaru gasio tua dau filiwn o Iddewon gael eu rhoi ar brawf.

Roedd yno lwyfan yno hefyd wedi ei godi i gynnal esmwyth feincia arbennig, a rheini rhyw droedfedd neu ddwy uwchlaw lefel meidrolion cyffredin y ddaear. Beth darodd fi ar y pryd oedd y tebygrwydd fod trethi amryw bobl wedi eu codi yn barod i brynu trefniant felly a'i gadw mewn ymgeledd.

Roedd dynas y dreth yno yn barod, a chriw o rhyw hen ferched lleol, a stamp dinasyddion eilradd arnyn nhw, fel sydd wedi mynd ar y rhan fwy ohonon ni yd y fan yma rwan. A dyma fi'n sylweddoli nad oedd achos neb yn mynd i'w gael ei drin yn breifat.

Ar hynny dyma rhyw larp i mewn ac osgo arno fo fel tasa fo wedi arfar gwisgo jacbwts, a dyma fo'n dechra

egluro sut yr oedd petha yn mynd i fod, a fo erbyn deall oedd yr M.C. fel petai. "Nid hwn a hwn ydach chi?" medda rhyw hen wreigan wrtho fo. "Roeddwn i'n nabod ych nain."

"Neith hynny ddim gwahaniaeth i chi heddiw," medda fynta, ac fel y trodd petha allan, ddeudodd o rioed well gwir.

Wedyn, dyma dri dyn llyfndew i mewn a blewyn da arnyn nhw a blonag, a'u gwedd gyffredinol nhw yn eglurhad amlwg i'r adnod honno. "Nid ar fara yn unig..." Dyma nhw yn gosod eu hunain mor gyffyrddus a medra nhw ar yr esmwythfeincia, a thaflu rhyw drem i lawr ar feidrolion y ddaear, ac wedyn syllu i'r gofod pell.

Roedd hyn yn arwydd i'r M.C., oedd erbyn hyn wedi gosod ei hun wrth eu hochra nhw, i agor y cyfarfod, a dyma fo yn dechra ar achos yr hen ferched oedd erbyn hyn yn eistedd o'n blaena ni fel rhes o wenoliaid yn barod i fudo.

Dydi o ddim yn lle i mi fynd i drafod eu busnas nhw rhag ofn i mi syrthio i amryfusedd, ond hyn sy'n saff i'w ddweud. Roeddwn nhw yn byw ar gyrion y lôn fawr yna sy'n hollti'r dref yn ddwy, a'u cwyn nhw oedd, fod swn y drafndiaeth yn uffernol, ac yr oeddwn nhw awydd cael gostyngiad yn eu trethi.

Roedd yna un garpan wedi cael ei hethol i siarad drostyn nhw, ac mi wnaeth hynny yn reit ddel - yn Saesneg - tan nes y cloffodd hi. Wedyn dyma dynas y dreth ar ei thraed i ddeud ei phwt.

Roedd hi wedi bod ar ymweliad yn y tai, medda hi, a doedd y swn glywodd hi, ddim byd i'r berwinder oedd hi wedi glywad mewn amal i dre yn Lloegr, ac i brofi hynny, dyma hi'n deud ei bod hi wedi clywad caneri yn canu yn eglur yn un o'r stafelloedd, ac roedd hynny ynddo'i hun yn profi fod yna fwy o dangnefedd yno nac mewn llawer lle. Ac ar draul hynny, am wn i y penderfynwyd y matar.

Dyma'r M.C. yn gweiddi "stand", a dyma pawb yn straglio ar ei draed i ddangos dyledus barch i'r santaidd dri oedd yn ymneilltuo am y parad â ni, i gymryd arnyn benderfynu achos yr hen wragadd. Ond doeddwn ni ond prin wedi eistedd, nad oeddwn ni ar ein traed wedyn i'w derbyn nhw yn eu hola, ac wedi setlio eilwaith yn eu cadeiria, fuo nhw fawr o dro â rhoi yr

hen ferched ar ddeall nad oeddwn nhw ddim am gael eu gostyngiad wedi'r cwbl, ac ei bod hi'n dda iawn arnyn nhw chwalad na geinia. Ac oddi yn yr aethon nhw, yn ddigon swat.

Wedyn, dyma hi'n dod yn dro i mi, a dyma'r M.C. yn darllan y manylion. Wrth gwrs dydw i ddim wedi bod yn ddiarth i rhyw achosion fel hyn, ac unwaith neu ddwy, rydw i wedi dwad allan ohonyn nhw y tu cleta i'r clawdd, ac mae gen i amgyffrad go dda o'r modd y dyla nhw gael eu rhedag - mewn gwlad efengyl.

Y peth cynta yn ôl yr arferiad cyffredin ydi cyflwyno un ochr i'r llall, a dyma fi'n gneud hynny yn eitha parod o fy ochr i, ond pan ddisgwyllis i gael gwybod pwy oedd y santaidd dri, mi fasa rhywun yn meddwl fy mod i wedi bygwth taflu grenêd i barlwr y maer.

Mi aeth yr M.C. yn goch fel crib ceiliog, a fedrwn i ddim llai na chasglu oddi wrth ei agwedd o, na fasa waeth iddyn nhw fod yn perthyn i'r Klu Klux Klan ddim, ac yn gwisgo bagia peilliad am eu penna.

"O, fel yna mae hi," medda fi yn ddigon di daro. Ac o'r funud honno allan, roedd hi'n amlwg i ba gyfeiriad yr oedd fy achos i yn mynd i droi.

Ond mi ddarun ganiatau i mi siarad yn Gymraeg, ond mi sylwais nad oedd neb am drafferthu i

gyfieithu sylwadau dynas y dreth er fy mwyn i chwaith.


Mi fuo honno ar ei thraed wedyn am tua deng munud yn trafod cyflwr fy mwthyn i, a'r mymryn cwt hwnnw sydd yng ngwaelod yr ardd, fel tasa fo yn faen coffa i ryw arwr cenedlaethol, a doeddwn i ddim ond yn disgwyl ei chlywad hi'n deud faint o chwarta o sicion golchi oedd yn mynd i'r Afon Bont mewn hannar canrif. Ac yr oedd hi'n amlwg o fod wedi dotio ar swn ei llais ei hun.

Pan dawodd hi o'r diwadd, dyma nhw yn rhoi cyfle i mi ddeud rhyw air terfynol, fel y cafodd Ned Kelly cyn iddyn nhw roi rhaff am ei wddw fo. Ond gwrthod wnes i. A dyma'r Tri allan wedyn.

Mi gymeron eu hamsar, ac ama roeddwn i eu bod nhw wedi cael mygyn ar draul fy achos i. Ond erbyn hynny doeddwn i ddim ond yn disgwyl y gwaetha, a ches i ddim o fy siomi. Dal i dalu fy nghrogbris fydd raid i mi bellach, tan nes yr aiff rhywun â fi oddi yma.

Ond ddaru'r Santaidd Dri ddim fy nghadw fi yn hir. Roeddwn i yn ama eu bod nhw awydd eu cinio, ac i ffwrdd yr aethon nhw am sglatch - ar draul fy nghodiad i mae'n siwr - tra y bu raid i mi a fy r hriw, fodloni ar panad ac eclan yn Caffi Maes, a bod yn ddiolchgar fod gynon ni ddigon o newid mân yn spar i dalu amdanyn nhw.

LEN YN CYNRYCHOLI CYMRU



Esgusodwch y chwarae ar air, ond mynd ymlaen o nerth i nerth yw hanes Len Jones y codwr pwysau pŵer o Ddeiniolen. Ym mhencampwriaeth 'Cwpan Cymru' ydwr Nghaerdydd ddechrau mis Mehefin Len ddaeth i'r brig yn ei adran - sef y dosbarth 60 kilo.

Mae Len, sy'n un o sefydlwyr Clwb Codi Pwysau Pŵer Dinorwig bellach wedi ei ddewis i gynrychioli Cymru yn y Pencampwriaethau yn erbyn yr Alban, Iwerddon a Lloegr.

Ei llongyfarchiadau iddo a phob hwyl i'r dyfodol. Mae rhagor o hanes codwyr pwysau ar y dudalen gefn.

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394**

CABS PADARN

FFÔN:

LLANBERIS 871347

Gwasanaeth Tacsï a Bws Mini

Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd

Unrhyw bellter: Hur Contract

LLANBERIS

Gohebydd - Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol, (Llanberis 870220)

CYMANFA BREGETHU - Ar yr ail Sul o Fehefin cynhelir Cymanfa Bregethu yr Annibynwyr yn Nant Padarn, ac eleni eto cafwyd cymanfa lewyrchus iawn gyda phregethu grymus. Y pregethwyr ydoedd y Parchn. Gareth Watts, Y Barri, ac O.E. Evans. darlithydd o'r Brifysgol, Bangor.

ORGAN CAPEL PRESWYLFA - Fel y gwyr pawb erbyn hyn, mae Capel Preswylfa a'r Festri wedi eu trosi yn ffatri, y cyfan o'r seddau a'r meinciau wedi eu symud allan. Ond, mae'r organ hardd yn dal yno o hyd. Gresyn na fuasai modd ei chadw yn yr ardal, ond nid oes unman yn ddigon mawr i'w gosod yno. Bu y perchenogion presennol yn garedig iawn yn cynnig rhoi yr organ i'r pentref yn hytrach na'i gwerthu i estroniaid.

TRIP YR HENOED - Un pnawn Sadwrn aeth aelodau o Glwb yr Henoed am drip i Rhyl, a chafwyd amser da gan bawb. Bu ddwy o aelodau'r Pwyllgor yn cynorthwyo tîm y Gwasanaeth Trosglwyddo Gwaed yn y Ganolfan - Miss Ann Jones, Teras Minafon, a Mrs Ella Houdle, Afallon, Stryd Newton.

UNDEB Y MAMAU - Cynhaliwyd y gwasanaeth misol o Undeb y Mamau Eglwys Sant Peris a Sant Padarn ar y 7fed o'r mis dan arweiniad y Parchedig A.W. Cherry. Mwynhawyd araith gan Mrs Pat Wright, Llywydd yr Esgobaeth ar waith a phwrpas Undeb y Mamau. Y mis nesaf cynhelir gwasanaeth Undeb y Mamau yn Eglwys Sant Peris. Darparwyd lluniaeth ysgafn gan Mrs Betty Humphreys, Mrs Glyn Williams a Mrs Dennese Hughes, a diolchwyd iddynt gan Mrs Eric Owen ac eiliwyd y diolchiadau gan Mrs Buddug Hughes.

CLWB PÊL-DROED - Cynhelir cyfarfod cyhoeddus o Glwb Pêl-droed Llanberis yn Angorfa, Stryd y Ffynnon, nos Fawrth, Gorffennaf 19 1983 am 7.30 pm. Taer erfynir am bresenoldeb pawb sydd â diddordeb mewn cadw'r clwb ymlaen. Mae'r baich ar ysgwyddau bregus yn trymhau a buasai rhyw chwistrelliad o waed newydd yn fendithiol.

RHEDEG - Dal i redeg yn llwyddiannus iawn mae rhai o fechgyn Llanberis - ac yn darparu at y ras fawr, sef Ras yr Wyddfa.

Mae Paul a Kevin, meibion Mr a Mrs J. Prytherch, Bronallt wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus. Yn ras filltir Llangoed, daeth Paul yn gyntaf o holl blant ysgolion cynradd y cylch, a Kevin ei frawd yn gyntaf yn ras yr oedolion. Ym Mhorthmadog, yn Ras Dros-y-Cob daeth Paul yn gyntaf, a Kevin yn ail. Bu Michael, mab Mr a Mrs T. Roberts, Stryd y Ffynnon, yn llwyddiannus yno hefyd. Daeth yn gyntaf ar y ras 13 milltir.



Ardderchog hogia - daliwch ati - mae Ras yr Wyddfa yn nesau - dymunir i chi lwyddiant yn y ras honno hefyd.

TRIP Y DOSBARTH MEITHRIN - Eto eleni bu plantos y Dosbarth Meithrin am drip i Fae Colwyn. Aeth rhai rheini gyda'r plant, a chafwyd diwrnod hapus iawn er na fu llawer o haul. Gwelwch grŵp o'r plant ym Mharc Eirias.

PERSONOL - Dymuna ei llu cyfeillion adferiad buan i Mrs Thomas Evans, Caledfryn sydd wedi ei symud o'i chartref i ysbyty ym Mangor wythnos yn ôl.

Hefyd, Miss Clarice Williams, Summer Hill, hithau yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor.

Mae cymdogion a'r holl blant y mae yn ei dysgu yn gobeithio y caiff ddod adref yn fuan, wedi llwyr wella.

YR YSGOL

TRIP YSGOL - Ddydd Llun Mehefin 20 bu'r rhan fwyaf o blant yr adran gynradd am drip i Alton Towers.

Cafwyd diwrnod bendigedig yno, pawb wedi mwynhau ei hun yn ardderchog.

PÊL-RWYD - Yn ystod y mis bu tîm o Ysgol Llanllyfni yma i chwarae pêl-rwyd. Ar ôl gêm galed iawn llwyddodd Llanllyfni i fynd ar y blaen. Llongyfarchion i'r ddau dîm am gêm dda.

PENODIAD - Dymuna staff a phlant yr ysgol longyfarch Mr Iwan Roberts ar gael ei benodi yn brifathro Ysgol Llanybi yn Eifionydd. "Pob llwyddiant i chi yn eich swydd newydd Mr Roberts."

CYDYMDEIMLO - Dymuna pawb yn yr ysgol gydymdeimlo â Mr Selwyn Pritchard a'i deulu yn eu profedigaeth.

DIOLCHIADAU

Dymuna Mr a Mrs Robert Hughes, 5 Ffordd Padarn, ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, pob caredigrwyd a chymwynasau a gafwyd i deithio i Ysbyty Glan Clwyd gan gymdogion a chyfeillion. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mrs Enid Roberts, 56 Maes Padarn, ddiolch o galon i bawb a fu mor garedig wrthi tra yn yr ysbyty, a hefyd ar ôl iddi ddychwelyd adref. Diolch i staff 'Peris Ward', Ysbyty Eryri, Dr Dan Hughes, a Nyrs Beth am eu gofal wedi iddi ddychwelyd i'w chartref.

Dymuna Maureen a John Phillips, 3 Bryn View Road, Penrhyn Bay, Llandudno, ddiolch i'r llu ffrindiau, a chymdogion am eu caredigrwyd tra bu Maureen yn yr ysbyty. Merch Megan a Griffith Owen, 59 Maes Padarn yw Maureen, a John yn fab i Dilys ac Arfon Phillips, 38 Stryd Fawr.

Dymuna Ray a Gwenda Harding ddiolch i bawb am y cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniwyd ar enedigaeth eu merch fach Sian Elin.

Dymuna Mrs Mary Thomas, Rock Terrace, ddiolch i'w theulu, cymdogion a chyfeillion am eu caredigrwyd tuag ati ar ei phen blwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

GWAELEDD - Y mis hwn eto mae salwch yn llethu amryw o'r pentrefwyr, rhai sydd yn eu cartrefi yn gweld yr haf mor hir yn dod a'r tywydd mor ansicr ac o ychydig gymorth iddynt wella. Eraill, wedi eu hanfon am driniaeth i'r ysbyty - rhai wedi dychwelyd adref, a rhai yn aros o hyd am driniaeth ychwanegol. Dymunir i'r cyfan adferiad llwyr yn fuan iawn lle bynnag y bônt. Mae'r rhai a ganlyn wedi dychwelyd i'w cartrefi: Mr Robert Owen, Coed Mawr; Mr Robert Hughes, Ffordd Padarn; Mr Evie Parry, 1 Stryd yr Wyddfa; Mr Hugh Williams, Ffordd Tŷ Du; Mr Owen Davies, Stryd yr Wyddfa; Mr Alun Roberts, Stryd



Plant y Dosbarth Meithrin yn mwynhau eu trip

Goodman. Deallwn fod Rhian, merch ieuengaf Mr a Mrs Eurwyn Thomas, Stryd y Ffynnon wedi dod adref o'r ysbyty ym Mangor ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol, ac iddi fod yn eneth fach dda iawn yno. Da iawn Rhian, mae'r plant i gyd wedi bod yn cofio atoch, ac am i chi frysio mendio. Hefyd, ym Mangor o hyd y mae Mr Griffith Griffiths, Cambrian.

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd cyfarfod mis Mai yn y Ganolfan gyda Mrs Hannah Jones yn llywyddu. Ar ôl darllen y cofnodion a'r llythyr misol, estynnodd y llywydd groeso'n ôl i Mrs Katie Griffith ar ôl ei gwyliau yn Canada. Llongyfarchwyd Mrs Netta Jones ar ei phen-blwydd yn 80 oed, a dymunwyd gwellhad buan i Mrs Gwen Edwards ar ôl ei harhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Y gŵr gwadd oedd Mr Oswyn Rees, Bangor, a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo ar waith y Gwasanaethau Cymdeithasol. Diolchwyd i Mr Rees, ac i'r gwestwagedd am y noson, gan Mrs Katie Williams a Mrs Dwynwen Roberts. Y gwestwagedd oedd Mrs Dilys Jones, Mrs E.M. Jones, Mrs Mattie Hughes a Mrs Megan Hughes. Enillwyd y raffl gan Mrs Dilys Jones.

YSGOLORIAETH - Llongyfarchiadau i David, mab Mr a Mrs Gartside, Compton, ar ennill ysgoloriaeth i Ysgol Rugby. Enillodd ysgoloriaeth o Ysgol Dolbadarn i Ysgol Rydal, Bae Colwyn. Bydd yn dechrau yn ei ysgol newydd yn yr hydref. Dymunir iddo bob llwyddiant yno.

CONFFIRMASIWN - Mewn gwasanaeth arbennig yn Eglwys Crist, Llandinorwig, conffirmiwyd yr aelodau canlynol o Eglwys Sant Padarn gan Esgob Bangor, y Parchedig Esgob Cledon: Mrs Annie Jones; Mrs Maria Price; Mr Keith Williams; Mr Gareth Jones a Mr Norman David Jones.

CYMDEITHAS Y MERCHED - Ar yr ail o'r mis cyfarfu aelodau'r gymdeithas uchod yn y Ganolfan pryd y cafwyd anerchiad gan aelodau Bwrdd Gwarchodaeth Natur ynglŷn â'r gwaith a wneir ganddynt o amgylch yr ardal. Trefnir i gynnal Ffair Haf yng Ngardd Dolafon bnawn Sadwrn 25 o Fehefin ac fe gyflwynir yr elw tuag at gynnal gwely yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon. Bu'r aelodau yn ystyried pwrcasu 'Portable Oxygen Cylinder' er budd yr ardalwyr, ond deëllir erbyn hyn nad oes angen un yn yr ardal. Felly, penderfynwyd codi arian ar gyfer anghenion Ysbyty Bryn Seiont.

REIDIO BEIC - Fel arfer mae staff y Clinic yn dal ati i gynorthwyo pob achos teilwng yn eu horiau hamdden. Y tro hwn mynd ar gefn beic am reid o Lanberis i Lanrug, Penisarwaun, Pontrhythallt ac adref yn ôl wnaethant er codi arian at y Gronfa lleotomy, a bu eu hymdrech yn dra llwyddiannus yn ariannol, a phawb yn cyrraedd yn ôl wedi blino

ond eto yn galonnog a hwyliog. Dyma'r criw gwrol: Nyrs Ceri; Nyrs Marian; Nyrs Carys; Mair Lloyd Roberts; Jane Roberts; Eleri Williams; Bessie Pritchard. Da iawn wir - roedd yr ymdrech yn werth ei gwneud.

MYND I'R IWERDDON - Ryw ddwy flynedd yn ôl priododd Maureen, merch Mr a Mrs Allen (gynt o Dôl Elidir, ond yn awr yng Ngaernarfon) a gwneud eu cartref yn Stryd Thomas. Bachgen o Belfast ydoedd ei phriod, ac yn gweithio'n lleol. Ond gyda'r diweithdra yn yr ardal, ar hyn o bryd daeth y gwaith i ben, a phenderfynodd Mr a Mrs K. McKee adael yr ardal a mynd i'r Iwerddon i fyw. Dymunir iddynt bob llwyddiant yn eu cartref newydd yn Belfast. Gresyn yw colli ein pobol ifanc fel hyn, dau neu dri o dro i dro.

CYDYMDEIMLAD - Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Mr John Lloyd, Bedwargoed, Stryd Fawr yn ei brofedigaeth o golli brawd yn Llanbed, a hefyd ddyddiau'n hwyrach ewythr yn Aberaeron. Hefyd, estynnir cydymdeimlad â Mrs Myrddin Pritchard, Ffordd Padarn, Mrs Ken Jones, Maes Padarn, Mrs Hughie Pritchard, Stryd Turner o golli eu nai - mab eu chwaer hynaf a drigai yng Nghaer.

MARWOLAETHAU

Edith Hughes

Yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor bu farw Edith Hughes, Cadfan ar y 30 o Fai yn 82 oed. Gweddw y diweddar T.O. Hughes M.B.E. ydoedd ac wedi ei geni a'i magu a byw ei hoed yn yr ardal. Hi ydoedd yr olaf ond un o deulu mawr, a'r cyfan yn ffyddloniaid yn Eglwys Sant Padarn. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Padarn ar yr ail o Fehefin, a chladdwyd ei gweddillion ym mynwent Nant Peris. Gwasanaethwyd yn yr Eglwys ac wrth y bedd, gan y Parch R.M. Jones.

(Parhad ar y dudalen nesaf)

**GWASANAETH
TRIN GWALLT YN
EICH CARTREF**

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



LLANBERIS (parhad)

Cydymdeimlir â'i hunig fab, Selyf, a'i deulu, ei chwaer, Mrs J. Thomas, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

Margaret Batten

Mehefin 8, yn Ysbyty Bangor, bu farw Margaret Batten, yn 80 oed. Bu yn wael ers amser maith, ac ni fu allan o'i chartref ers tair blynedd. Dod i fyny i'r gogledd wnaeth Llewelyn Batten a'i briod yn y flwyddyn 1940 o Abercynon, ac yma y cartrefodd y ddau gan wneud lluo o gyfeillion. Roedd y ddau yn aelodau ffyddlon iawn yn Eglwys Nant Padarn, a chymerasant ddiddordeb eithriadol mewn cerddoriaeth. Bu Mrs Batten yn aelod ffyddlon gyda'r Côr Mawr, y Côr Merched a'r Parti Noson Lawen. Trefnwyd yr angladd yn yr Amlogsgfa, Bangor, ddydd Sadwrn, 11eg, gyda'r Parchedig Gareth Watts, y Barri yn gwasanaethu. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â Llewelyn Batten yn ei golled fawr.

Cledwyn Pritchard

Ar ôl gwaeledd blin am hir amser, a dioddef y cyfan am flynyddoedd yn dawel a dirwgnach, bu farw Cledwyn, priod hoff Maria, Tai'r Vaenol ddydd Llun, Mehefin 13. Roedd yn 74 oed. Roedd Cledwyn, wedi ei eni a'i fagu yn yr ardal, wedi dilyn ei orchwylion yn y chwarel ar ôl gadael yr ysgol, ac wedi gweithio oes yn trin y llechen. Cymeriad hynod o hoffus ydoedd - yn llawn hiwmor, ac yn denor swynol iawn. Yn ystod y blynyddoedd a dreuliodd yn y chwarel enillodd edmygedd ei gydweithwyr, roedd mor barod ei gymwynas bob amser.

Claddwyd ei weddillion ym mynwent Nant Peris, ddydd lau 16eg, gyda'r Parchedig John Pritchard, Abersoch yn gwasanaethu, yn y tŷ ac wrth y bedd. Cydymdeimlir â'i

weddw, ei ddau fab Selwyn a Norman a'u teuluoedd, a'r teulu i gyd yn eu colled.

Jennie Hackman

Ychydig ddyddiau yn ôl roedd Jenni Hackman (Jini Maes Llwyn, fel yr adwaenai y rhan fwyaf hi) yn ymweld â'r ardal wedi teithio o Awstralia. Roedd yn un o ddeg o blant i Ellis a Maggie Jones, Maes Llwyn, Stryd Newton. Aeth o Lanberis i aros gyda'i chwaer Katie sydd yn byw yn y Wirral, ac yn sydyn cafodd drawiad ar y galon a bu farw. Sioc fawr i'r teulu, ei meibion yn Awstralia, a'i chwiorydd - y ddwy olaf o'r deg plentyn. Cydymdeimlir â Megan, sydd yn byw yn yr hen gartref a'i chwaer Katie. Roedd Jennie yn 77 oed.

John Moxen

Daeth gwybodaeth i'r ardal am farwolaeth sydyn John Moxen yn Llanbedrog. Mab ydoedd i Mr a Mrs George Moxen, Terrace Olgra, ac yn 77 oed. Athro ydoedd wrth ei alwedigaeth a phenodwyd ef yn brifathro Ysgol Llanbedrog, lle y bu hyd ei ymddeoliad. Cydymdeimlir â'i chwaer, Grace, oedd yn byw gydag ef yn 'Y Bwthyn', Llanbedrog.

ANRHEGION I'R CARNIFAL - Os oes unrhyw eisiau cyfrannu at y Carnifal, (arian, tuniau bwyd i wneud basgedi bwyd, a gwobrwyon tuag at y gwahanol rafflau) a fuasech yn mynd â'ch anrhegion i Mrs Dilys Phillips, Siop Wlân, 38 Stryd Fawr, Llanberis neu Mr Ken Jones, 19 Maes Padarn, Llanberis erbyn dydd Sadwrn Gorffennaf 9, fel y gallwn wedyn benderfynu beth sydd angen ei brynu mewn gwobrau.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth hael bob amser.

UNDEB Y MAMAU 1920 neu 1924



Dyma lun a anfonwyd i'r Eco gan Mrs Georgie Parry, Stryd Turner, o aelodau Undeb y Mamau yn y flwyddyn 1920 neu 1924, pryd yr

oedd bri mawr ar y sefydliad y blynyddoedd hynny. Erbyn heddiw nid oes ond dwy o'r aelodau yn fyw.

CYNGOR CYMDEITHAS LLANBERIS

Cynhaliwyd cyfarfod Mai o'r Cyngor yn Angorfa dan gadeiryddiaeth Bert Parry - cadeirydd newydd y cyngor. Etholwyd Selyf Hughes yn is-gadeirydd. Rhoddwyd diolch o'r gadair i'r Cynghorydd Francis Jones am ei wasanaeth fel cadeirydd am y flwyddyn a aeth heibio. Trafodwyd y materion canlynol.

Faniau Sglodion

Mewn atebiad oddi wrth y Cyngor Sir i ymholiadau'r cyngor ynglŷn â faniau gwerthu chips dywedwyd nad oedd yn bosib eu hatal.

S4C

Mewn ymgais i geisio prysuro dyfodiad y sianel i Nant Peris penderfynodd y cyngor ysgrifennu at y cwmni preifat sy'n gyfrifol am y gwasanaeth trosglwyddo.

Trwsio Pont

Mae'r bont dros yr afon Goch sy ar y llwybr cyhoeddus o Bron Eryri i'r Hostel Ieuentid wedi ei rhoi ar raglen waith y Cyngor Sir am y

flwyddyn yma.

Prynu Set Ocsigen

Mae'r cyngor wedi prynu set ocsigen 'Portox' - ac fe'i cyflwynir i ofal y fferyllydd Mr Gartside.

Glanhau gwteri

Mae'r Cyngor wedi gofyn i'r Cyngor Sir am wasanaeth lori gyda pheiriant arbennig i lanhau gwteri Nant Peris.

Stryd Warden

Gwnaethpwyd cais i'r Cyngor Sir i atgyweirio Stryd Warden.

Anhapus

Mae'r cyngor yn dal yn bryderus iawn ynglŷn â'r pwll yng ngheg y twnel ger Nant Peris. Maent yn dal i bwyso ar y Bwrdd Canolog Cynhyrchu Trydan i sicrhau diogelwch dyn ac anifail.

Capel Preswylfa

Anfonodd y Cyngor lythyr at Gyngor Arfon yn gofyn a oedd y ffens sy'n amgylchynu Capel Preswylfa yn boddhau gofynion cynllunio.

BETWS GARMON

DYMUNA Gwyndaf Ty'n Weirglodd ddiolch i bawb a brynodd lyfrau ganddo yn ystod ymgyrch Cyngor Llyfrau. Gwerthwyd gwerth £59.65, £3.65 yn llai na'r archeb gwreiddiol gan nad oedd rhai llyfrau ar gael. Diolch hefyd i'r rhai a'i gefnogodd at ymgyrch noddi'r ysgol - aeth £7 i'r ysgol.

BARBECIW: Cafwyd noson lwyddiannus yn Nhy'n Weirglodd

nos Wener, Mai 20. Diolch i bawb a fu'n gysylltiedig â'r ymgyrch yn yr ardal, ac i bawb a gyfrannodd ymhob ffordd. Roedd elw'r noson, sef £80 yn mynd at gronfa'r Ganolfan yn Waunfawr.

DIOLCH: Dymuna Eirian ac Idris (Ty'n Weirglodd) Talwrn ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn mor sydyn.

Wrth droed yr Wyddfa . . .



**BWYTY FFERM
BRON ERYRI
LLANBERIS** Ffôn 870391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

**E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

CHWILOTA

(Bwriad y gyfres hon yw 'chwilota' i hen hanesion, chwedlau a digwyddiadau yn ardal bro'r 'Eco'. Esgym sychion yn unig fydd y mwyafrif ohonynt, ond gobeithir cael mwy o gnawd ar ambell un gyda help y darllenwyr. Os oes gan unrhyw un sylw neu wybodaeth ar unrhyw destun yn y gyfres, byddwn yn falch o glywed gennych. Anfonwch eich cyfraniadau i'r Golygydd Erthyglau.)

Stryd Goodman

Rai misoedd yn ôl derbyniwyd llythyr diddorol iawn oddi wrth Miss Olwen Davies, (cyn-ddarlithydd yn y Coleg Normal) ac sydd wedi cartrefu ym Mhenrhos, Bangor), yn olrhain tipyn o hanes ei theulu ac yn atgoffa ei hun o'r amser pleserus a gafodd yn ystod ei phlentyndod yn Llanberis. Cyfeiriodd at rai o'r cymeriadau hoffus fu yn ei dysgu o dro i dro.

Yn ei llythyr cyfeiriodd at Stryd Goodman. Gofynnodd os oedd unrhyw gysylltiad rhwng enw'r stryd a'r Esgob Goodman fu'n byw yn Tŷ Du, ac ychydig iawn wyddai am yr Esgob Goodman hefyd. Mae amryw wedi holi ac yn holi am y dyn yma, a dyma gyfle i olrhain ychydig o'i hanes.

Cymry o waed oedd ei deulu, a dywedir mai sidanwr o dref Rhuthun oedd i cyntaf i wisgo'r cyfenw 'Goodman'. Cyn hynny dyma enw teuluol - Edward ap Ionas ap Edwards ap Siencyn Goch o Landyrnog, Dyffryn Clwyd. Y cyfenw ydoedd Goodman. Ganwyd Godfrey Goodman yn nhref Rhuthun ar y 28ain o Chwefror 1582. Mab ydoedd i Godfrey a Catherine, merch Simon Croxton o'r Merllyn, gerllaw Rhuthun. Nid pobl dlawd mohonynt, ond roeddynt yn Gymry glan-galon. Anfonwyd Godfrey Goodman i Ysgol Westminster Llundain i'w addysgu, ac yna i Goleg y Drindod, Caergrawnt (1592-1607). Roedd yn fachgen galluog iawn a dyfodol disglair iddo. Brawd i'w dad ydoedd Deon Goodman, sylfaenydd Ysgol Ramadeg, Rhuthun. Trwy ffafr cyfeillion ei ewythr, a ffafr Brenin Iago'r 1af a'r Frenhines Anne cafodd ei ethol i nifer o fywiolaethau yn Lloegr ac yng Nghymru. Dewiswyd ef yn Ddeon Rochester yn y flwyddyn 1621, ac yn Esgob Caerloyw yn 1625.

Pan ddaeth y Brenin Siarl I i'r orsedd daeth newid ar ei fywyd, ac fe'i cafodd ei hun fwy a mwy heb gydymdeimlaid â'r polisi crefyddol. Rhwng 1626 a 1640 yr oedd tystiolaeth yn crynhoi ei fod yn pellhau oddi wrth yr eglwys, ac awgrymid ei fod am droi'n Babydd, ond nid oes sicrwydd pendant am hyn yn unman.

Yn 1640 fe'i carcharwyd am wrthod torri ei enw ar ganonau Esgob Laud. Yn ystod yr amser yma ysgrifennodd amryw o lyfrau ar hanes ei ddioddefiadau, oherwydd nid esmwyth fu ei lwybr gyda'r frodyr

eglwysig. Roedd yn ddyn cyfoethog iawn erbyn hyn. Rhyddhawyd ef o'r carchar pan gytunodd i dorri ei enw ar y dogfennau eglwysig. Yn ystod ei garchariad diswyddwyd ef, ac ar ôl iddo goleddu syniadau Pabaidd mewn pregeth fe'i carcharwyd ddwywaith cyn 1643 a chymerwyd y rhan fwyaf o'i arian a'i eiddo oddi arno. Ymneilltuodd i fywyd meudwyl o'r bron, a dyma'r amser y daeth i chwilio am loches i Gymru, a phrynu ystad fechan - 'Ystad Coedmawr a Tŷ Du', rhywbryd rhwng 1643 a 1647, a gwneud ei gartref yn un o'r tai ar yr ystad yma - sef Tŷ Du, sydd i'w weld heddiw, ond bron yn adfeilion llwyr.

Dyma ddywed yr hanesydd William Williams "Mae yn anhawdd gwybod pa fodd y daeth i wybod am yr ardal yma - a pha mor fynych y deuai efe yma i aros. Yr oedd cymoedd culion Llanberis y pryd hwnnw yn llawn o goedydd talfrig, ac nid oedd ffordd i ddod i'r lle." Roedd yr hen ffordd fynydd a llawer llwybr yn rhedeg iddi yn dod heibio Tŷ Du a Choedmawr. Maint yr ystad a brynodd oedd 698 o aceri. Yn ei ewyllys a wnaed yn 1644 dywed fod ardreth Coedmawr a Thŷ Du yn £40 yr un. Ymddengys fod yr holl diroedd a berthynai i'r plwyf yn perthyn i'r Faenol - Mr Assheton Smith ac i Esgob Goodman.

Roedd Ystad y Faenol yn ymestyn o ochr chwith i'r ffordd sydd yn arwain at Capel Coch (Ffordd Capel Coch), heibio i dalcen yr hen lythyrdy (Padarn Stores heddiw) i Ben yr Wyddfa ac at derfyn y Plwyf ym Mhen Bwlch.

Roedd terfynau Ystad Esgob Goodman y rhan arall o'r ffordd hyd at y garreg derfyn a roddwyd drwy awdurdod y Cyngor Sir yng nghlawdd y ffordd yn ymyl Ynys Wen ac i fyny i Ben Bwlch. Yn y prydlesoedd disgrifir yr Ystad - Coed mawr yn 150 o aceri, a'r Tŷ Du yn 546 o aceri. Felly, roedd y cyfan o dir o'r mynydd i Lyn Padarn yn eiddo i'r Esgob Goodman.

Fel yr âi'r blynyddoedd heibio fe dorrwyd i lawr y coedwigoedd, ac mae'n debyg mai'r unig ffordd i'r Tŷ Du oedd drwy y gegin, ac yn araf gwnaed ffordd neu lwybr i lawr o'r Tŷ Du at y Llyn. O dipyn i beth fel yr oedd y chwareli yn datblygu roedd angen cartrefi ar y chwarelwyr ac wrth gwrs mynd at Esgob Goodman wnâi'r

chwarelwyr i ofyn am dir i adeiladu.

Y mae Tecwyn Parry yn ei lyfr yn dweud fel a ganlyn - "Yn y flwyddyn 1830 gosodwyd Dôl-Tŷ-Du ar brydles o un mlynedd ar hugain ar ardreth o ddeugain punt. Fferm ydoedd y Ddôl-Tŷ-Hen rhywle rhwng Coed Mawr, Tŷ Du a Bryndu. Nid oes olion ohoni heddiw, ac mae rheseidiau o dai wedi eu hadeiladu ar ei thir. Gosodwyd y Tŷ Du ar yr un dyddiad am ardreth o £70.

Yn y flwyddyn 1829 adeiladodd Evan Evans dŷ bychan asiop ar ddarn o dir fferm Ddôl-Tŷ-Du, a chaniatawyd iddo brydles o 21 mlynedd am ardreth o ddwy gini y flwyddyn" - ys gwn i ai hwn oedd y tŷ cyntaf a godwyd ar dir Esgob Goodman? Dywedwyd bod Esgob Goodman yn ŵr diniwed, caredig at ei gymdogion ac yn cydymdeimlo â'r ymneilltuwyr - wrth gwrs roedd yn falch o gyfoethogi ei ystad - yn rhoi tir i bawb ond roedd rhaid i'r cyfan fod ar brydles - yn syml ddigon gosod tir ar rent am amser penodol.

Tua'r adeg yma y gwnaed ffordd o'r Tŷ Du i lan Llyn Padarn, ac yn 1830 y gwnaed ffordd gerbyd o Lanberis i Ben-y-Gwryd, a phedair blynedd ynghynt sef 1820, codwyd Pont Penllyn.

Felly, gallwn gredu mai Stryd Goodman oedd y stryd gyntaf yn yr ardal, yn cysylltu â'r ffordd newydd o Ben-y-Llyn i Ben-y-gwryd, a hefyd i gysylltu â'r llyn lle'r oedd glanfa i gychod a ddeuai â nwyddau o ochr arall i'r llyn lle yr oedd melin flawd a melin wlân, rhyw fath o 'Ferry Service' ar draws y llyn.

Bu farw'r Esgob Goodman lonawr 1655 ac fe'i claddwyd ym Mynwent St Margaret, Llundain. Cedwir ei enw yn fyw yn Llanberis am oesau, yn unig am iddo yn ddamweiniol brynu dernyn o dir coediog, diwerth yr adeg honno, ond drwy i'r chwarelwyr godi strydoedd o dai fel Stryd Goodman, Stryd yr Wyddfa, Stryd y Dŵr, Stryd y Ffynnon, Llainwen ac ymlaen ac ymlaen fe'i gwnaed yn ddyn cyfoethog dros ben.

CEUNANT

GWELLHAD - Dymunwn adferiad buan i Stephen Jones, Tanhafodlas, sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty.

FFARWELIO - Dymunwn bob hapusrwydd i Mrs Jennie Jones, Tŷ Uchaf, sydd erbyn hyn wedi symud i'w chartref newydd yn Llanberis.

Tlws Hogia'r Wyddfa i Eisteddfod yr Urdd

Aelwyd Rhuthun, Clwyd a gipiodd y Tlws yn Eisteddfod Aberafan eleni, ond mae cyfansoddwr y Gân Werin Fodern, sydd hefyd yn aelod o'r grŵp, yn hanu yn wreiddiol o Fro'r Eco - sef Robert Arwyn Jones, Talysarn, ei fam Mrs Enid Jones yn enedigol o'r Fachwen, ac yn cyfrannu'n gyson i'r Eco.

Enillodd Arwyn Dlws Coffa Grace Williams am naw gwobr o gyfansoddi cerddoriaeth yn ogystal ag ysgoloriaeth Sim Davies a Butlins am ei gyfraniad i'r Eisteddfod gyda phartion Cerdd Dant; pedwarawd aelwydydd ac aelod o'r côr buddugol. Ef hefyd oedd cyfeilydd a hyfforddwr Côr Adran Bentref Clocaenog ger Rhuthun, a ddaeth yn drydydd.

Yn sicr bu cyfraniad Robert Arwyn yn foddion i ddod ag Aelwyd Rhuthun i'r brig eleni.

Llyfrgellydd Ysgolion Cymraeg Clwyd yw Arwyn, ond treulia ei orianu hamdden yn cyfansoddi, cadw cyngherddau ac ati yng nghylch Rhuthun. Bu'n beirniadu cerddoriaeth mewn sawl eisteddfod yng Nghlwyd yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd yr hyn oedd gan Arwel (Hogia'r Wyddfa) i'w ddweud am y Gân Werin a'r grŵp yn galonogol iawn.

BETWS GARMON

COFIWCH am yr Ymryson Cŵn Defaid Awst 12-13.

CWM-Y-GLO

DYMUNA Miss Ceridwen Hughes, 4 Pool Street, ddiolch i'w ffrindiau a'i chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

YN ÔL I'W HEN FRO

Dyna hanes y Parch Robert Berwyn Roberts, Vancouver, Canada a ddaeth yn ôl i'w hen ardal yn ddiweddar i aros yng nghartref ei nai, Gwynfor Roberts, Goledd, Bryn Eglwys, Penisarwaun. Cafodd Mr Roberts ei fagu yn 7 Porth y Gogledd, Deiniolen gyda'i dau frawd Jac Maldwyn a Wil. Roedd y tri yn feibion i Tom a Jane Roberts. Aeth yn weinidog gyda'r Wesleaid yn Llansilin yn gyntaf, wedyn Llanrhaeadr ym Mochnant cyn mynd yn gaplan yn y fyddin yn ystod yr ail ryfel. Ar ôl y rhyfel cafodd gyfnodau o wasanaeth fel gweinidog ym Maesteg a Manceinion cyn ffarwelio â'i gymdogion a'i berthnasau a chroesi'r dŵr i Vancouver tua 25 mlynedd yn ôl i weithredu fel gweinidog yn y ddinas fawr honno. Yn ystod ei arhosiad yng nghartref Jean a Gwynfor cafodd gyfle i bregethu yn nghapel Penisarwaun. Mae pawb yn y fro yn gobeithio iddo gael bendith o ymweld â'i gynefin unwaith eto.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)

Y FELINHELI 670124 (Nos)

DEINIOLEN

**C
A
B
S**

**Gwasanaeth 24 awr -
unrhyw bellter
Eich rhedeg i'r Maes
Awyr neu'r Porthladd**

Ffôn: Llanberis

871591

J.M. WILLIAMS, 12 TAI FAENOL

BETHEL

Gohebydd - Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

SEFYDLIAD Y MERCHED - Cynhaliwyd y cyfarfod yn yr ysgol gyda Mrs Ellen Jones, Awel y Grug yn y gadair. Y gŵr gwadd oedd y Parch W.R. Williams, Y Felinheli. Cafwyd noson fywiog iawn yn ei gwmni. Diolchwyd iddo gan Mrs E.E. Williams Tan-y-Bryn. Y gwestwagedd oedd Mrs M.G. Williams, Gwylfa a Mrs Sally Hughes, 55 Bro Rhos. Enillwyd y raffl gan Mrs A.E. Williams, Tŷ Newydd.

CYFLAWN AELODAU - Derbyniwyd un ar ddeg o bobl ifanc y Cysegr yn gyflawn aelodau gan y Parch W.R. Williams nos Sul Mai 22. Braf oedd gweld y capel mor llawn. Y rhai a dderbyniwyd oedd: Richard Evans Tan-y-Cae; Gareth Bryfdir Jones, Bwlch-y-Gwynt; Gwyn Antur Jones, 26 Bro Rhos; Huw Meredydd Roberts, Penrhos; Ceri a Shân Evans, Blaen Parc; Nia W. Hughes, Cae Meta; Mair O. Hughes, Siabod; Awen E. Jones, 7 Bro Rhos; Eurwen Williams, Pen Lôn; Manon D. Williams, Elan.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Katie Jones, Rhianfa sy'n 80 oed ar Orffennaf 24.

Llongyfarchwn D. Alan Owen, 20 Cremlyn a Wendy Thomas, 18 New St., Caernarfon ar eu dywedd. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu.

Llongyfarchiadau i Gerwyn Williams, Aberystwyth, ar ennill y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod yr Urdd yn Aberafan. Mae Gerwyn yn fab i Mr a Mrs Dafydd Williams ac yn nai i Mr a Mrs E. Pritchard, 1 Bro Rhos. Ganwyd Gerwyn yn Llangefni ond oherwydd galwedigaeth ei dad

yn y banc, bu'n byw mewn sawl ardal. Mae'n fyfyrwr yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth ac eisoes wedi ennill amryw o gadeiriau eisteddfodol yn Nyffryn Ogwen, Cricieth a Bangor.

Llongyfarchiadau i Mrs Eleri Owen merch Mr a Mrs Gruffudd Jones, Siop, gynt, ar gael gradd B.A. yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor.

Llongyfarchwn Huw Hughes, Stad Eryri ar ei ddychafiad yn Sarjant yn adran Dditectif Heddlu Gogledd Cymru.


YSGOL FEITHRIN - Bydd y bys yn cychwyn o Benrhos am 9.15 fore Mercher Gorffennaf 9fed am Bwllheli. Cofiwch os yw eich plentyn yn 2 a hanner erbyn mis Medi dowch i gysylltiad â Mrs Lynwen Morris.

MERCHED Y WAWR - Daeth y tymor i ben nos Fercher Mehefin 8, pryd y trefnwyd taith ddiddorol iawn i Ynys Môn gan y Pwyllgor. Daeth Mrs Mary V. Jones, Waunfawr i roi sylwadaeth ar Din Lligwy, Cofgolofn Morrisiaid Môn a Mynwent Llanallgo i weld cofeb y rhai a gollwyd o'r Royal Charter. Cafwyd pryd blasus iawn yn Rhosrefor Benllech i orffen y noson. Diolchodd y Llywydd, Mrs Rita Williams, i'r pwyllgor am eu gwaith yn ystod y flwyddyn a dymuno'n dda i'r Llywydd newydd, sef Mrs Ann Hopcyn a'i phwyllgor am flwyddyn lwyddiannus eto. Bydd y cyfarfod nesaf yr ail nos Fercher ym Medi.

Bu aelodau'r gangen yn casglu £55 tuag at y Spastics.

BEDYDD - Yn ystod gwasanaeth boreol yn y Cysegr, Mai 22 bedyddiwyd Ceira Wyn, merch fach John a Julia Pritchard, 2 Fron Helyg gan y gweinidog, y Parch W.R. Williams.

STABAL GOCH



"Be mae hwnna'n wneud?"

"Beth mae be'n wneud?"

"Beth mae pryf copyn yn 'i wneud yn y dŵr?"

"Ydio wedi marw?"

"Nag ydi. Mae o'n mynd i fyny ac i lawr, ac mae o'n sgleinio weithia."

"Gad i mi weld?"

Gorweddwn ar fy mol ar y garreg lefn wrth ochr y nant, a rhoi fy wyneb yn yr hylif melyn, a drachtio'n helaeth, nes i'r pryf copyn dwr, dynnu fy sylw. Daeth fy nhad yn nes, a gwyro ar ei gwrcwd, yn fy ymyl. Yn amlwg, doedd o ddim yn rhyw siŵr iawn am y trychfil bach, ond penderfynasom mai yn y dŵr yr oedd yn cartrefu. Dros y blynyddoedd cynnar rheini, gorweddais droeon yno, i wyllo'r corryn prysur yn casglu aer o wyneb y dŵr.

Lle diddorol oedd hwn i fynd am dro hefo 'nhad ar ôl capel, nos Sul, yn yr haf.

"Ga i fynd i weld Siambar Gathod?"

"Cei."

"Ydach chi'n cofio cathod gwylltion yna?"

"Nac ydw, ond mi oedd dy daid."

"Oeddan nhw'n beryglus?"

"Nag oeddan siŵr iawn, ond mi oeddan nhw'n wyllt."

"Ble maen nhw rwan?"

"Does dim ar ôl, ond maen nhw i'w cael yn Sgotland o hyd."

Roedden ni, hogia Llainwen yn hawlio Stabal Goch, ac yn mynd yno chwarae o hyd, a doedd Morris Owen, Coed Mawr, byth yn ein rhwystro. Wedi'r cwbl, hen gartre Harri Parri, tad Harri a Dafydd Bach ydoedd, ac er bod yr hen furddyn wedi mynd â'i ben iddo ers blynyddoedd, roedd y cyswllt yn ddigon cryf i ni, fechgyn. Yn amlwg, roedd ein rhieni yn ei gysidro'n lle saf i blant hefyd, a'r unig rybudd oedd, i ni ddod adre erbyn pryd bywd. Yn yr haf byddai glannau'r nant fach yn lle godidog i gael picnic, ac i drochi'n traed, ac roedd gardd y tyddyn erbyn hynny'n llecyn clir gwelltog, yn gwneud cae ffwtbol penigamp.

Ar ddiwedd un gêm, gafaeloddf rhywun mewn hen shît o zinc oedd yn gorwedd mewn cwrdd o'r ardd, a'i throï drosodd.

NADROEDD!

O dan y darn metal rhydllyd, roedd mam gwiber, a phump neu chwech o rai bach. Tra oedden ni hogia wedi rhedeg o'i chwmpas am dros awr, roedd hi wedi aros yn ei chuddfan, ac yn ei hofn, wedi esgor ar ei rhai bach. Ond roedd ein hofn ni yn fawr hefyd. Un funud roedden nhw'n fyw. Y funud nesaf, oherwydd ein

hanwybodaeth ni, roedden yn gyrff toredig marw. Dyna'r unig dro i mi gael gweld mam neidr a'i chywion. Ni chefais i erioed wedyn mo'r fraint, ac mae o'n un o'r pethau rydw i'n difaru'n fawr. Ydyn, mae gwiberod yn bethau peryglus, ond maen nhw fel ni yn rhan o'r cread, ac yn haeddu cyfle i fyw. Heddiw, does dim esgus i neb ond plant bach fod yn anwybodus o'u harferion a'u cynefin.

Ond rhyw ugain llath o'r afon, ar ochr Pen Bryn, roedd llain fach lan las, ger y llwybr; lle dymunol i redeg, rowlio, gorwedd a chwarae. Heddiw, mae rhedyn wedi ei lyncu, ond i ni roedd yn gae criced hyfryd. Roedd iddo anfanteision, braidd yn gyfyng, ac yn anodd cael hyd i'r bêl, os âi dros y wal. Un ffordd o gywiro'r diffyg yma oedd mynd â ci hefo ni. Mi synnech mor dda ydi ci am ddarganfod peli mewn brwyn ac eithin, ac mi oedd ci rhywun hefo ni bron bob tro.

"Beth am ras?"

"Reit o. Rownd Stabal Goch?"

"A i fyny'r stryd."

"Af innau drwy Tai Christmas."

Tynnu'n cotia, a'u rhoi ar ben y wal. Un, dau, tri, GO. Roedd hi'n ffordd dda i fagu megyn a choesau. Rhedais nerth fy ngallu heibio Llwyn Eilian, giât llwybr y Glyn, a thrwy'r giât haearn yng nghefn Coed y Glyn. Cwrdd â Harri ger yr Afon fach, a gwybod o hen brofiad, ei bod yn ras glos. Tuchan i fyny'r llwybr i Ben Bryn, a cherdded yr ugain llath olaf i'r gwastad. Yna 'i chychwyn hi heibio Llwyn Dyrrus, a'r codiad dan fy sawdl. Doedd neb yn gwybod pwy oedd yn mynd i ennill, hyd y funud olaf, ac roedd Harri a minnau yn bur gyfartal - y fo heno, finnau dro arall. Doedd dim perygl traffic y ffordd yma, yn wir, prin y deuai car neu lorri yn y dydd, heb sôn am gyda'r nos.

Troi ym mhen ucha'r stryd, a rhedeg mor gyflym ag y gallwn, i lawr Llainwen. Gweld yr hogiau yn fy ngwyllo, a dod ar y gwastad. Cynnwrf sydyn a gweiddi ymysg y criw a gwybod bod Harri'n dod lawr gallt Tŷ Croes. Un ymdrech fawr - ein holl egni, a chyrraedd y wal. Pwy oedd wedi ennill? Roedd o'n bwysig bryd hynny, er mai rhyw lathen neu ddwy oedd ynddi ar ôl rhedeg rhyw filltir a hanner dros gws mor arw. Dau arall yn herio'i gilydd, ac wedi iddyn nhw ddarfod, ail redeg y ras gyntaf yn wrthwyneb.

Biti na fydda 'na Ras yr Wyddfa i ni, 'r adeg honno.

YSGOL BETHEL



Rhai o ddisgyblion Ysgol Gynradd Bethel fu'n llwyddiannus yn ddiweddar mewn arholiadau canu'r recorder, Gradd I, II a IV dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain. Cyflwynwyd y tystysgrifau i'r disgyblion gan Mr John Huw Davies, Uwch-drefnydd Cerdd Gwynedd.



Plant ysgol Bethel yn cyflwyno arwydd arbennig a diddorol iawn i Amgueddfa'r Chwael yn Llanberis. Daeth y plant o hyd iddo rai blynyddoedd yn ôl ar ochr y lein bach wrth wneud cywaith ar y rheilffordd. 'Whistle' yw'r gair sy ar yr arwydd. Digwyddodd damwain angheuol ar y lein ger Capel Cysegr yn niwedd y 20au. A dywed rhai fod cysylltiad rhwng yr arwydd a hyn. A all unrhyw un o'r darllenwyr gadarnhau?

YSGOL GYNRADD WAUNFAWR

AROGLI

Adeiladwyd ein hysgol ni yn y flwyddyn 1876 ac y mae felly yn 107 oed y flwyddyn yma. O wenithfaen lleol yr adeiladwyd hi ac y mae yn hardd iawn. Adeiladwyd darn newydd at yr hen adeilad bedair blynedd yn ôl, ac yno mae safon pedwar, ystafell yr athrawon a swyddfa'r Prifathro. Y mae gennym hefyd gyntedd hardd. Tu mewn i'r muriau mae'r dosbarthiadau yn fodern a lliwgar iawn. Rhyw 120 blant sydd yn yr ysgol, wedi eu rhannu'n bump dosbarth. Y mae dosbarth 1, Babanod, mewn dosbarth symudol ar iard yr ysgol. Gelwir yr adeilad yn 'Hafod' gan mai adeilad dros dro ydyw, er ei fod yma ers deng mlynedd! Mrs Hughes yw'r athrawes ac y mae yn byw ym Methel, Mrs Williams yw'r Weinyddes Feithrin sydd yn helpu Mrs Hughes. Yn gofalu am Ddosbarth Babanod 2 y mae Mrs Ellis. Y mae hi yn byw yng Ngaernarfon a daw bob dydd i'r ysgol yn ei mini bach llwyd. Mrs Eames yw athrawes Safon 1 a 2. Y mae'n dda iawn am chwarae'r piano ac y mae yn ein dysgu i ganu a chwarae offerynnau cerdd.

Mr Owen sydd yn gofalu am safon 2 a 3. Y mae ef yn byw yn y Groeslon.

Prifathro'r ysgol yw Mr Leslie Jones, ac ef sy'n dysgu safon IV. Bu Mr Jones yn ddisgybl yn yr ysgol hon a bydd yn sôn weithiau am ei ddyddiau ef yn yr ysgol.

Ysgol hapus iawn yw ein hysgol ni.

SIAN LLWYD JONES

Cyngerdd yr Ysgol


Nos Wener, Mehefin 17 cawsom fynd i ganu yng Nghapel Croes y Waun i gasglu pres at y Ganolfan. Roedd Dafydd Iwan a chôr yr ysgol yn canu yno. Roedd llawer o bobl yno. Roedd y tywydd yn heulog iawn a dechreuodd y Cyngerdd am saith. Fy hoff ganeuon yn y cyngerdd oedd Cân Hedd a chadwyn o Hwiangerddi Cymreig a Heulwen Haf.

Roedd cerddorfa'r ysgol yn chwarae'r offerynnau yno hefyd. Roedd yno ddau glarinet, a thair fflwt, ac un oboe a chyrn band. Roeddwn yn hoffi rhai caneuon gyda Dafydd Iwan fel Dyn Bach o Fangor a Trip i'r Gofod. Roedd Mrs Eames wedi paratoi llawer i'n dysgu ni i ganu yn dda. Wrth wrando y bobl yn clapio cofiais am y ddihareb: Meistr pob gwaith yw ymarfer. Fe gasglwyd cant o bunnoedd yn y Cyngerdd Ysgol.

Fore dydd Mawrth 21ain o Fehefin daeth Mr Eurig Wyn a Mr Edgar Owen i'r ysgol i dderbyn sicc o £100 tuag at y Ganolfan.

OSIAN GWYNEDD

Beth sydd yn y llun?
Lliwiwch y dotiau.



Barn rhai o blant Safon 2 a 3 am yr ysgol

Yr wyf yn ddisgybl yn ysgol Waunfawr. Mae gennyf rai pethau yr wyf yn eu hoffi, a rhai pethau nad wyf yn eu hoffi am yr ysgol. 'Rwyf yn ddeg oed ac yn nosbarth Mr Owen, Safon 3. Mae'r ysgol yn gwneud llawer o fwsig a byddaf yn ei fwynhau. Mrs Eames sydd yn ein dysgu. Os yw'r tywydd yn foddhaol ar bawn Gwener 'rydym yn cael pêl-droed. Nid oes digon o chwaraeon yn yr ysgol yn fy marn i. Ond, erbyn y Nadolig bydd Canolfan Newydd y Waun wedi ei chwblhau, 'rwy'n gobeithio y byddwn yn cael mwy o lawer o chwaraeon. Ar hyn o bryd nid oes lle yn ein hysgol ni. Ond rhag ofn i chwi feddwl bod popeth yn wael yn yr Ysgol, mae gennyf rai pethau 'rwyf yn eu hoffi am yr ysgol hefyd. Cychwynnaf am yr ysgol tua hanner awr wedi wyth. Af i nôl dau o'm ffrindiau. Yna byddwn ni ein tri yn gosod y cadeiriau i gael gwasanaeth boreol. 'Rwyf wrth fy modd yn cael ysgrifennu, ond nid wyf mor hoff pan osoda Mr Owen symiau ar y bwrdd du a gofyn inni eu gwneud. Mae tua chant dau ddeg neu fwy o ddisgyblion yn yr ysgol ac mae dosbarthiadau plant bach hefyd. Ni fuaswn yn newid ysgol am le yn y byd. 'Rwyf yn hoffi'r ysgol wedi'r cwbl.


TELOR HEDD IWAN

'Rwyf yn hoffi mynd i'r ysgol bob bore. Mae llawer o bethau diddorol i'w gwneud yma. Mae safon cerddoriaeth yr ysgol yn uchel iawn. 'Roedd Cyngerdd yng nghapel Croes y Waun ar yr 17eg o Fehefin. Roedd yr elw yn mynd tuag at y Ganolfan newydd. Bob dydd Gwener bydd y bechgyn yn cael pêl droed a'r genethod yn cael rownderi hefo Mrs Eames (os bydd y tywydd yn caniatáu). Cafwyd tarian i'w rhoi i'r cerddor a gyfrannodd fwyaf at gerddoriaeth ar hyd y flwyddyn. Rhoddwyd hi y llynedd i Elli Haf sef merch Dafydd Iwan ac i Karen Roberts eleni. Mrs Marston roddodd y darian gerddoriaeth. Rhoddodd Dr Williams darian hefyd am y cywaith mwyaf diddorol.

NIA LLWYD, Safon 2

Llae da yw yr ysgol. 'Rydw i yn cael cinio da yma. Mae gennyf nifer iawn o ffrindiau. Ar ddydd Mawrth yr ydym yn cael miwsig a gwnio gan Mrs Eames. Mae'r hogiau yn cael arlunio hefyd. Mr Jones yw'r prifathro. Nid oes fawr o gosbi yn Ysgol Waunfawr. Mae Mrs Eames yn dda am chwarae'r piano. Mae plant ysgol Waunfawr yn chwarae offerynnau fel, Fflwt, Clarinet, Melodicas, Recorders. Mr Owen yw ein hathro ni. Rwyf i yn hoffi gwneud gwaith Mathemateg yn yr ysgol. Bob blwyddyn mae tarian yn cael ei chyflwyno i'r plentyn sydd wedi cyfrannu fwyaf i fwsig yn ystod y flwyddyn. Karen Roberts enillodd y flwyddyn hon, a daeth Dr Meredydd Evans a Mrs Phyllis Kinney i'r ysgol i'w chyflwyno iddi.

ELLA WYN JONES (Safon 2)



Pontydd yr Ardal

Pwrpas pont yw cael croesi o un ochr i'r afon i'r ochr arall. Ers talwm roedd pobl yn rhoi cerrig yn y dŵr er mwyn iddynt gael neidio arnynt rhag gwlychu eu traed. Gelwir y cerrig hyn yn gerrig naid. Cafodd Pont y Cynant ei hadeiladu yn 1776. Mae ganddi ddau fwa o'r un maint. Adeiladwyd Pont y Betws yn 1777 sef blwyddyn ar ôl Pont y Cynant. Mae gan Bont y Betws dair bwa. Mae'r bwa yn y canol yn fawr a'r ddau arall o boptu yn llai. Enw ar y lle gorau i groesi afon yw rhyd, a dyna sut y cafwyd yr enwau Rhydychen a Rhyd Ddu. Dim ond un bwa sydd gan bont Cerrig yr Rhyd. Cafodd y bont yma ei hadeiladu ar gyfer trol a cheffyl.

KAREN

Barn rhai o blant Dosbarth 2 Babanod am aroglau da a drwg

Rydw i'n hoffi arogl petrol pan fydd dad yn mynd i nôl petrol i'r garej. Rydw i'n hoffi arogle persawr achos mae arogl persawr yn dda i chi. Rydw i yn hoffi arogl sebon hefyd ac arogl blodau. Dydw i ddim yn hoffi arogl napi. Arogl hyll a drwg ydi hwn.

SARA WILLIAMS

Mae arogl cryf ar y nionyn. Mae'r arogl yn dod â dagrau i fy llygaid. Mae arogl rwyber yn ddrwg yn enwedig os ydi'r rwyber yn llosgi.

JAIME

Pan fydd fy chwaer fach i yn baeddu ei chlwt nid ydi dad byth yn newid yn clwt, ond mae dad yn hoffi cario Sioned wedyn pan mae arogl glân arni. Dydw i ddim yn hoffi arogl ffid Sioned chwaith.

DELYTH

Dydw i ddim yn hoffi arogl coffi. Ni fedraf yfed coffi achos nid wyf yn hoffi ei arogl.

Dydw i ddim yn hoffi arogl pwll nofio. Stwff i lanhau'r dŵr sydd yn rhoi'r arogl drwg. Pan fyddaf yn nofio byddaf yn anghofio am yr arogl drwg a bydd dŵr i fyny fy nhrwyn.

MEILIR

Rydw i'n hoffi'r arogl sydd ar mam pan mae'n gwisgo persawr. Rydw i'n hoffi'r arogl sydd ar siampŵ. Bydd arogl neis ar fy ngwallt wedyn.

Arogl hyll sydd ar baent. Mam fydd yn peintio yn tŷ ni. Rydw i'n hoffi arogl pan fyddaf yn prynu llyfr newydd. Pan mae'r llyfr yn hen does dim arogl neis arno.

RACHEL DAVIES

Dydw i ddim yn hoffi arogl mwg pan fydd Anti Jenny yn llosgi coed. Byddaf yn mynd i'r tŷ a chau y ffenestri. Ond rydw i yn hoffi arogl persawr.

ANWEN

Rydw i'n hoffi arogl jam pan fyddaf yn ei roi ar fechdan. Rydw i'n hoffi arogl petrol pan fydd dad yn mynd i'r garej a gadael y ffenestr yn agored.

Rydw i'n hoffi arogl paent pan fydd dad yn peintio wal. Dydw i ddim yn hoffi arogl creion pan fyddaf yn lliwio.

Rydw i'n hoffi arogl Mot, bydd Mot yn dod i'm gwely bob amser. Dydw i ddim yn hoffi arogl coffi. Rydw i yn hoffi arogl sebon.

ELIN GWILYM

ENWOGION YR ARDAL

Dafydd Ddu Eryri
(David Thomas) 1760-1822

Bardd mawr yn y ganrif ddiwethaf oedd Dafydd Ddu Eryri. Bu'n meithrin a dysgu beirdd ieuainc ei wlad dros dymor maith.

Ganwyd mewn tŷ o'r enw 'Penybont' ger pont y Cynant. Y mae'r tŷ nawr yn dŷ mawr a modern, ond nid tŷ felly oedd yn ei ddyddiau ef. Tŷ un llawr a ffenestri yn ei dalcen oedd yr hen dŷ, ac yn y ffenestr honno y byddai ei dad yn gwau. Gwehydd oedd ei dad a dysgodd yntau'r grefft. Yr oedd llawer o wehyddion yn y Waun y pryd hynny. Er mai gwehydd oedd wrth ei alwedigaeth bu'n cadw ysgol mewn nifer o ardaloedd gan gynnwys Betws Garmon, Llanrug a Llanberis.

Bu farw drwy fodd i yn Afon Cegin ar ei ffordd adref o Sir Fôn.

Y mae cof-lechen uwch drws ffrynt 'Penybont' i gofio mai yma y ganed ef.

Dyma'r geiriau sydd ar y gof-lechen:


PENYBONT

Yn y tŷ hwn y ganwyd y bardd a'r hynafiaethydd clodfawr, David Thomas (Dafydd Ddu Eryri) yn Ebrill 1760 ac yma preswylai drwy ystod y rhan foreuaf o'i oes.

Wele gwron flagurai - yma gynt
Am ei gân ragorai,
Ar aelwyd lle yr eiliai - coffeir hon
Tra gloew'n Arfon y treigl hen Wyrfa.

(Ioan Arfon)

KAREN ROBERTS



TRIP YR YSGOL I GAERDYDD, 24 a 25 MEHEFIN



Y peth a wnes i ei fwynhau fwyaf ar y trip oedd ein hymwelid â Sain Ffagan. Yr oedd Mr Alun Davies, y gŵr sydd yn gyfrifol am ddodrefnu hen adeiladau yn ein disgwyl. Arweiniodd ni at Garreg Fawr sydd wedi ei ailadeiladu ond heb ei ddodrefnu eto. Symudwyd y tŷ i Sain Ffagan yn y flwyddyn 1976. Y mae'r tŷ yn hen iawn. Adeiladwyd ef gan ffermwr oddeutu 1570. Cyn ei symud defnyddiwyd ef fel ysgubor. Y peth a'm tarodd

gyntaf oedd y ddwy simdde fawr. Tu mewn roedd llofft ac yr oedd lle tân yno yn ogystal ag i lawr. Er mwyn rhannu un ystafell yn ddwy roeddynt wedi gwneud wal allan o frigau coed wedi eu plethu â'i gilydd. Nid oedd gwydrau yn y ffenestri. Plant Ysgol Waunfawr oedd y plant cyntaf i fynd i mewn i'r tŷ meddai Mr Davies. Ar ôl gweld Garreg Fawr cawsom fynd i weld adeiladau diddorol eraill.

PLANT SAFON 3 a 4



Owain Gwyrfa

1790-1874

Ei enw iawn oedd Owen Williams, a gweithiai fel cowper, sef gwneuthurwr casgenni. Bu'n byw yn hen dŷ Dafydd Ddu Eryri. Galwodd ei dŷ yn "Fwth y Bardd". Bu'n pregethu'r efengyl gyda'r Wesleaid am dymor byr. Ni chafodd fawr o ysgol ond cyhoeddodd nifer fawr o lyfrau. Claddwyd ef ym mynwent Betws Garmon. Mae englyn o'i waith ei hun ar ei garreg fedd.

Cael llonydd mewn cell unig, yn fy nydd

Oedd fy nef arbennig;
Byw yn deg, heb neb yn ddi
Na noddi dim anniddig.

EI ORCHESTION

Fel bardd:

Ennill cadair Cymdeithas Cymreigyddion Caernarfon, Eisteddfod Gŵyl Ddewi, 1824.

Fel llenor:

Geiriadur mawr Owen Williams, sef y cynnig cyntaf ar gyhoeddi gwyddoniadur Cymraeg.

EUROS

WAUNFAWR

Gohebydd : Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626).

CLWB CANT MEHEFIN – Yr enillwyr oedd:

1. Glenys Jones, Rhandirmwyn
2. Gillian Wyn, Y Frenni
3. Emlyn Williams, Anneddle

YR YSGOL – Mewn cyfarfod yn yr ysgol bawn Mercher Medi 15 cyflwynwyd tarian 'Cerdor y Flwyddyn' i Karen Roberts gan Dr Meredydd Evans a Mrs Phyllis Kinney.

Derbyniwyd rhodd o darian arall i'r ysgol gan Dr R.S. Williams, Cadeirydd Rheolwyr yr Ysgol. Rhoddir y darian am y Cywaith Unigol gorau. Yr enillydd eleni yw Joanne Tame.

Cynhaliwyd Cyngerdd 'Noson Gerddorol' yng nghapel Croesywaun nos Wener, 17 Mehefin. Yr oedd y plant wedi eu paratoi gan Mrs E. Eames. Yn dilyn y cyngerdd trosglwyddwyd sic o £100 i Mr Eurig Wyn a Mr Edgar Owen tuag at y Ganolfan.

Aeth plant yr adran iau am daith dau ddiwrnod i Gaerdydd gan ymweld â'r Amgueddfa Genedlaethol a'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan.

RHAGLEN Y CARNIFAL –

Nos Wener, Gorffennaf 1af.

Coroni y Frenhines Felicity yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 o'r gloch, hefyd bydd disco i'r plant.

Nos Lun, Gorffennaf 4ydd

Cystadleuaeth pêl-droed 5 bob ochr yng nghae'r Ysgol am 6.30 o'r gloch. (Manylion gan Mr Gareth Jones, Glyn Ceris.)

Nos Fercher, Gorffennaf 6ed

Gemau Giamocs. Cystadleuaeth rhwng 3 tim o'r pentref yng nghae'r Ysgol am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sadwrn, Gorffennaf 9fed

Carnifal a Mabolgampau yng nghae'r Ysgol.

Bydd gorymdaith y Carnifal yn cychwyn o Drefeddyg am 1.30 o'r gloch i lawr at y Llythyrdy ac i gae'r Ysgol o dan arweiniad Majorettes (Waunfawr). Y beirniaid fydd Iona ac Andy (canu gwlad).

MERCHED Y WAWR – Nos Iau, Mai 26ain yn Neuadd yr Eglwys. Llywydd y noson oedd Mrs Irene Roberts, a chyflwynodd y wraig rodd i'r aelodau. Mrs Ceinwen Roberts, Gellilydan ddaeth i'n diddori, a chawsom noson ddifyr a hwyliog dros ben yn ei chwmni. "Hen gelfi" oedd testun y sgwrs, ac yr oedd Mrs

Roberts wedi dod â llawer o eitemau i'w harddangos. Mae'n debyg fod llawer aelod wedi difaru lluchio 'trugareddau' ers llawer dydd, a hwythau yn brin ac yn werth arian heddiw. Hwyrach y cawn weld Mrs Roberts yn y Waunfawr rhyw bryd yn y dyfodol – mae ganddi arddangosfa o lestri hen yn ogystal â'r celfi, ac mae llawer o'r aelodau wedi mynegi diddordeb yn eu gweld.

Talwyd y diolchiadau gan Mrs Mary Vaughan Jones.

Y GANOLFAN – Derbyniodd pwyllgor y Ganolfan £80 o bunnoedd gan bobl ieuainc y pentref yn dilyn noson lwyddiannus a gynhaliwyd ganddynt yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis.

Cynhaliwyd cyngerdd gan blant Ysgol Gynradd Waunfawr yng Nghapel Croes y Waun a gwnaed elw o £100, ac mae'r pwyllgor yn ddiolchgar eithriadol i'r plant a'r athrawon am eu hymdrech eto eleni. Mae'r Cadeirydd wedi derbyn llythyr gan Gronfa Pantyfedwen yn dweud eu bod yn bwriadu cyfrannu cymorthdal anrhydeddus tuag at yr ymgyrch, a gobeithir clywed yn ystod y dyddiau nesa faint o arian yn union fydd hyn yn ei olygu.

LLONGYFARCHIADAU –

I Janet Greasley, Min Afon, ar ei phriodas â Alwyn Morris Jones o Bontnewydd;

I Roger a Marged Dafydd, Glanfa, ar enedigaeth mab, Llion, brawd bach i Gwenllian;

I Lliffon Jones, Dôl Erddi, ar ennill gradd gydag anrhydedd yng Ngholeg Prifysgol, Bangor;

I Mr a Mrs Alan, Pen y Bont, ar fod yn daid a nain. Ganwyd mab, Jmeel, i Denise a Houssin.

ADREF O'R YSBYTY – Balch iawn yw clywed fod Alys, merch Mrs Jones, Rhos Alun, adref o'r ysbty ac yn gwella ar ôl ei tharo'n wael tra yma ar ei gwyliau. Roedd Lowri ei merch yn gartrefol iawn yn yr ysgol a chymerodd ran yn y Cyngerdd nos Wener dwythia.

YR URDD – Fel y gwyr pawb bellach mae'n siŵr, daeth y ddau barti a aeth o'r pentref i Aberafan yn gyntaf, a chael beirniadaeth arbennig o dda. Cafodd y plant amser gwych yn yr Eisteddfod ac ym Maesteg, lle 'roeddent yn aros. Ac i goroni'r cwbl, cawsant groeso'n-ôl bythgofiadwy gan eu cyfeillion. Bydd y cwpan a enillwyd gan y parti canu yn cael ei chadw yng nghartrefi'r plant – bob un yn ei dro.

Bydd y pwyllgor yn cyfarfod yn fuan i drefnu rhaglen y gaeaf. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb i'n helpu, cysylltwch â Beryl Jones, Dôl y Coed.

CERDDOR Y FLWYDDYN



Dr Meredydd Evans a'i wraig Phyllis Kinney yn cyflwyno tarian 'cerddor y flwyddyn' i Karen Roberts.

(Llun drwy garedigrwyd Papurau'r Herald)

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

AR Y BRIG YN ABERAFAN



Parti Unsain dan 12 Adran Bentref Waunfawr gyda'u harweinydd Rhian Ellis a'u cyfeillydd Iwan Ellis.



Parti Recordyddion dan 15 oed Adran Bentref Waunfawr. Llongyfarchiadau i'r ddau barti ar ddod yn fuddugol yn eu cystadlaethau yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Aberafan.

Awdurdod Datblygu Cymru

**A ydych chi mewn busnes?
A ydych chi'n meddwl
cychwyn ar eich pen eich hun?**

Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.

Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.

Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.

Mae eich swyddfa leol ym Mangor. Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.

Uned Diwydiannau Bychain,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Llys Garth, Ffordd Garth,
Bangor. Ffôn: Bangor 352606

**Welsh
Development Agency**

Tewach gwaed na dŵr

Ar y trê hanner dydd o Gaernarfon ddydd Mawrth (Mai 1951) ymfudodd Mr a Mrs Owen Namur Jones, Pen-y-bwlch, Cwm-y-glo gyda'u plant, Llion (5 oed), Heddwyn (7 oed) ac Einir Wyn (11 oed) i Awstralia. Daeth ffrindiau a theulu i'r orsaf i ffarwelio â hwy.

Dyna'r geiriad o dan lun papur newydd oedd yn fy meddiant pan yn cychwyn ar fy nhaith i Awstralia ym mis Tachwedd y llynedd ('82). Dylwn egluro efallai fy mod innau yn y llun hwnnw ynghyd â nifer o rai eraill. Roeddwn i yno am fwy nag un rheswm - roedd Now Pen Bwlch yn gefnder imi - mab Anti Alice chwaer fy nhad; roedd Jennie Arfon 'i wraig, yn un o Brynrefail a chanddi hi y cefais ac y cafodd llawer o ieuencid Brynrefail eu hyfforddi yn y grefft o gydadrodd a dilyn eisteddfodau; roedd y plant yn annwyl gennyf gan iddynt fod yn byw drws nesa i ni yn Bronallt. Diwrnod trist oedd y diwrnod hwnnw - trist i'r teulu, trist i Gymru, ond roedd gobaith a hyder ynghlwm yn y tristwch ffarwelio ac anwybod y diwrnod hwnnw. Welais i byth 'mo Now a Jennie wedyn a ddaethon nhw ddim yn ôl. Heddych i'w llwch.

Wrth adael Brynrefail ar gychwyn fy nhaith roeddwn i'n obeithiol y byddwn yn gallu cysylltu â phlant Pen Bwlch ryw dro yn ystod y chwe mis o'm harhosiad. Gwiredwyd hynny ac wrth gwrs tanlinellwyd 'tewach gwaed na dŵr'.

Roedd llythyr croeso gan Einir yn fy nghroesawu i Melbourne a'r diwrnod cyntaf i mi yno daeth galwad ar y ffôn hefyd ganddi. Diflannodd dieithrwch gwahanu yr holl flynyddoedd ar amrantiad. Na nid oedd ei Chymraeg yn rhugl ond sicrhaf chi y bydd - roedd yn llawer mwy rhugl ddiwedd y chwe mis. Bu'n rhaid aros am rai misoedd cyn gallu cyfarfod yn y cawd. Roedd yn rhaid i mi gwblhau y dasg o ddysgu Dawnsio Gwerin Cymru ym Melbourne a thalaith Victoria. Ychydig ddyddiau wedi Gŵyl Dewi ('83) cychwynnais ar fy nhaith am Sydney, New South Wales. (Cewch hanes y daith a'r golygfeydd hynny eto!)

Sut y buasech chi'n teimlo pe baech yn dod allan o fws yn hwyr yn y nos, ar ôl deng awr o deithio, a chlywed llais yn galw'ch enw?! Wel dyna'n union ddigwyddodd i mi! "Alice Eileen, Alice Eileen" glywais i, a meddwl mod i'n breuddwydio ac yn fwy na hynny teimlo fel rhoi peltan i'r llefarydd (mae'n gas gen i'r enw ac mi fydd gen i byth - Alice neu Eileen neu Allsi ond dim y ddau - na

gyfoedion Ysgol Ramadeg Brynrefail arnoch chi roedd y bai a chofiaf yn dda am y pennill bach hyl! Ta waeth - dyn mawr tal golygus oedd yn galw f'enw (wnaiff o dim eto neu mi gollith gyfnither!). Ie gŵr Einir oedd yno - Lee Bronckhorst - Americanwr sydd bellach yn Awstraliad ac yn gymeriad hoffus eithriadol - yn siarad Cymraeg - Cymraeg sgolor - dim Cymraeg sathredig fel rhai ohonom ni. Cefais groeso a serch eithriadol ar aelwyd Einir a Lee a chyfle i weld er enghraifft sut mae Gorsaf Radio Wirfoddol yn gweithio yn Awstralia. Mae Einir yn gyflwynydd a chynhyrchydd ar Radio 2 MBS-FM - gorsaf gerddoriaeth glasurol, gwerin a chyfoes sy'n darlledu bedair awr ar hugain y dydd. Oherwydd mai Cymraes yw Einir llwyddwyd i gael cymorth yr Orsaf Radio yma pan ddaeth Côr Godre'r Aran i Sydney yn 1981 a cheir yr un cydweithrediad eto Hydref eleni pan aiff Côr Godre'r Aran ar ei ail ymweliad ag Awstralia.

Aeth Einir a minnau i fwrw'r Sul yn Dapto (i'r De o Woollongong) tua 80 km o Sydney. Taith gynhyrfus oedd honno ar hyd glannau'r Môr Pacific (oedd yn eitha 'rofic!) - cynhyrfus, emosiynol o gofio yr aduniad teuluol o'm blaen ac mai yno yr oedd cartref Einir pan oedd ei mam a'i thad yn fyw. Byddai pry ar y wal wedi clywed llawer cyfrinach ar y daith drên honno! O'r diwedd cyrraedd Dapto a'r hogia yno i'n croesawu (Heddwyn a Llion) - dynion erbyn hyn ond credwch neu beidio diflannodd dieithrwch dieithriaid cyn cyrraedd cartre Heddwyn. Osgo a chefn pen Heddwyn yn dreifio yn boenus atgofus debyg i Now a Llion yn troi rownd at Einir a finnau yn y set gefn a galloch dyngu mai Brian mab Lena Pen y Bwlch (ei gefnder) oedd yno. Nid dyna'r tro olaf y penwythnos yna i mi feddwl 'Anodd tynnu dyn oddi ar 'i dylwyth'. Byddai'n ddiddorol i'r teulu (teulu Now a Jennie) glywed am y tebygrwydd rhwng plant Heddwyn a Llion a phlant eu cefndryd (Brian, Wilbert, Oliver, Gwyndaf) a'r tebygrwydd rhwng Annie May ac Einir.

Cafwyd croeso dihafal a hwy l eithriadol. Mae'r hogia wedi priodi: Heddwyn a Denise a chanddynt

ddau o blant - Stephen Owain a Michelle; Llion a Georgie a chanddynt dri o blant - Gregory, Victoria a Jennie a'r ddau a chartrefi hyfryd ganddynt. Roedd pawb ohonom yn mynd i de i gartref Eric a Jean Owen a'u plant Karen a David. Mab Alice a'r diweddar Tommy Owen, Ceunant, Llanrug (gynt) yw Eric ac mae yn gefnder wrth gwrs i Einir, Heddwyn a Llion. Bûm yn gweld Alice fy nghyfnither yng Nghartre'r Henoed ym Mangor cyn mynd i Awstralia a moment arbennig oedd honno yn cyfarfod Eric gyda chyfarfod oddi wrth ei fam. Cynyddodd y teulu o'r foment honno - a hefo'n gilydd y buom i gyd i frecwast, cinio, te a swper dan nes yr oeddem yn ffarwelio ar Stesion Dapto yn hwyr nos Sul.

Cafwyd parti neu fel y dywed yr Awstraliad - barbeciw yn nhŷ a gardd Llion ar y nos Sadwrn - roedd stecan yn dda iawn wedi'i choginio allan! Buom yn canu, dawnsio, siarad dan oriau mân y bore. Mae Heddwyn ac Einir yn gerddorol fel Now - Heddwyn yn chwarae'r gitâr a phawb ohonom yn canu a phawb yn dawnsio i gyfeiliant cerddoriaeth casetiau Cymdeithas Ddawns Werin Cymru. Ychydig iawn mae'r hogia yn ei gofio am Gymru a nemawr ddim Cymraeg. Un person yn glynu yng nghof Heddwyn - Anti Bet - fy mam i oedd honno! Awydd cryf arno i ddod i ymweld â'r hen wlad ac efallai y daw gyda Einir gyda hyn Gobeithio. Ond y peth mwyaf

emosiynol ddirdynol i mi oedd pan roddodd Llion lyfr trwchus ar fy nglin yn hwyr y nos Sadwrn yna a dweud "Tell us as much as you know about the people listed here." Credwch neu beidio ond Beibl Teuluaid Bod y Gof Llanberis roddwyd ar fy nglin a William Williams 1846-1921 ac Alice Williams 1847-1929 ac enwau'r plant gan gynnwys fy nhad wrth gwrs - David Williams 1892-1939 ar y ddalen flaen yn llawysgrif fy nhaid y syllais arno yn syfrdan. Mae pob un o blant Bod y Gof wedi mynd erbyn hyn a nifer o blant y plant hefyd. Credaf yn sicr mai fi yw'r Alice Williams olaf o'r hil yna. Eitha sioc! Anodd oedd gadael y Beibl yna ar ôl yn Awstralia. Mwy anodd oedd gadael pregethau fy nhaid yn ei lawysgrif ef, Cantawd Pasg o'i waith ef a llythyr at Ysgrifennydd Eglwys ym Manceinion lle y cyfeiriai at y croeso a gafodd ef (W. Williams) a'i wraig Alsi ym Manceinion yn ddiweddar. Fodd bynnag efallai mai dyna'r bont sy'n ymestyn o ardal yr Eco i Awstralia bell a hyderaf y daw cyfle heb fod yn hir i groesi'r bont yna eto. Wedi'r cyfan 'Tewach gwaed na dŵr'.

AR WERTH

Toyota Carina (R) 1977. 58,000 milltir yn unig. Cyflwr da. Cynigion.

Hefyd: Piano fodern mewn cyflwr ardderchog - Bargen. G. Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug. Ffôn: Caernarfon 77163

Rhoddion

Diolchwn i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau cynhyrchu'r Eco:

£3 - Mr a Mrs Morris, 1 Dinorwig Terrace, Clwt y Bont
£2 - Di-enw, Llanberis; Mr a Mrs Griffith Owen, Maes Padarn, Llanberis; Mr a Mrs R. Harding, Min-y-Coed, Llanberis; Mr a Mrs Eifion Griffiths, Foel, Dinorwig; Mrs Nesta Jones, 2 Llys y Gwynt, Penisarwaun; Miss Rowlands, Pen yr Olchfa, Clwt y Bont.


£1 - Mr Goronwy Lewis, 18 Rhydfadog, Deiniolen; Eirian Jones, 11 New St., Deiniolen; Mrs Enid Llwyd Roberts, 56 Maes Padarn, Llanberis; Mrs N.M. Pritchard, 4 Bryn Hyfryd, Penisarwaun.

DRAENOG



Ydi mulod, pan mae'n nhw'n pwdu yn llyncu dynion, dudwch? Clywed am ful mewn cae ger Bangor yn cael ei styrbio o'i slymbyrs gan sŵn gers car yn cael eu hambygio. Pan aeth y mul i infestigetio mi welodd fod rhywun yn cael gwers ddreifio - ac wedi stopio wrth y wal. Roedd ffenest y car yn agored a phenelin yr instrycytr allan ac yn edrach fel y peth tebyca a welodd yr hen ful i foran - a dyma gymryd tamad i brofi. "Brensiach y bratia!" (neu rhybath tebyg), meddai'r instrycytr mewn syndod a phoen. wedyn, dyma thri - pwynt - tyrn reit ddel ac adra â'r instrycytr a'r llynyr i sufulaisiesion bro'r Eco.

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO . . .



**BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)**

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

PENSIYNAU YSWIRIANT MORGAIS

Gwasanaeth newydd i bobl y fro

Robert Jones a'r Cwmni

Ymgynghorwyr Yswiriant a Morgais

SIOP ISAF, 7 HEOL-Y-DŴR,

PENYGGROES

Ffôn: 880027 (24 awr)

Codwch y ffôn heddiw am bris

Mae gennym Gynlluniau Pensiwn, Bywydau,
Yswiriant Eiddo, Adeiladau, Cyfrifoldebau, Ceir etc. ar
gyfer pawb

ASiantaeth Leol Cymdeithas Adeiladu'r Halifax

DEINIOLEN

Gohebydd: Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen (Llanberis 870267)

EIN DYMUNIADAU GORAU i'n Gohebydd, Mrs Nancy Rowlands, gan obeithio y bydd hi'n well o lawer cyn bo hir (Gol.)

DYMUNA Mrs C.M. Morris, Clwt y Bont, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da iddi yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar. Diolch hefyd i holl staff Ysbyty Eryri, Caernarfon, am eu gofal a hefyd staff Môn ac Arfon, Bangor.

SEINDORF – Syfrdanwyd y Seindorf a'r pwyllgor o glywed am farwolaeth frawychus o sydyn Mr R.M. Roberts, 96 Pentre Helen. Yr oedd Bobbie fel y'i gelwid gan hogia'r Seindorf yn aelod ffyddlon o bwyllgorau'r Seindorf ers rhai blyneddau. Derbyniwch ein cydymdeimlad fel teulu.

Enillwyr Clwb 200 am fis Mehefin yw fel a ganlyn:

1. £25 – Rhif 9. Mr A. Parry, 45 Pentre Helen
2. £15 – Rhif 47. Mr Colin Williams, Stryd Fawr
3. £5 – Rhif 124. Mrs E.A. Williams, Arfon House.

Dyma'r bandiau a fydd yn cystadlu yn Nosbarth C yn yr Eisteddfod yn Llangefni:

Deiniolen, Llanrug, Trefor, Fflint, Treffynnon, Y Drenewydd, Oakely, Llansaint.

DIOLCH – Dymuna Mrs Ellen Morris, 39 Ffordd Tan Rhiw, Tregarth, ddiolch i bawb am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati yn ystod ei arhosiad yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Diolch hefyd i feddygon a nyrsus Ysbyty Môn ac Arfon ac Ysbyty Eryri am eu gofal.

PLAID CYMRU – Cynhelir yr helfa drysor flynyddol ddydd Sadwrn,

Gorffennaf 23. Cesglir yr enwau gan Mr Irfon Morris (trefnydd yr helfa), a chan aelodau pwyllgor y gangen.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan Mehefin 6, dan ofal y llywydd. Darllenodd y llywydd y llythyr misol, a darllenwyd y cofnodion am y mis blaenorol gan yr ysgrifennydd. Croesawyd y wraig wadd (sef Mrs Hughes o Glynllifon) gan y llywydd. Cafwyd noson ddifur iawn gan Mrs Hughes yn rhoi arddangosfa goginio bwydydd iechyd. Diolchwyd i Mrs Hughes gan Mrs Rita Jones, Y Becws, a Mrs Nancy Rowlands. Croesawyd dwy aelod newydd sef Mrs Margaret Jones, 42 Pentre Helen a Mrs Esther Ann Williams. Enillwyd y raffl gan Mrs Mary Morris, 91 Pentre Helen. Rhoddwyd y te gan Mrs Beryl Hughes, Rhydfadog; a Mrs Marian Wyn Williams, Caradog Place. Cafwyd ymddiheuriad gan lawer o'r aelodau oedd yn methu bod yn bresennol. Cyfarfod nesaf Gorffennaf 4ydd, gyda Mr Cyril Jones, Llanberis.

DYMUNA Mr Owen Hughes, Erw Fair, ddiolch yn garedig iawn am y cardiau a'r dymuniadau da a dderbyniodd tra yn Ysbyty Môn ac Arfon yn derbyn llawdriniaeth. Hefyd i hogiau llyfrgell Deiniolen am eu dymuniadau da iddo. Diolch i'r Staff yn 'Upper Surgical' Ysbyty Môn ac Arfon, Bangor. Diolch yn fawr i bawb am eu galwadau ffôn ar ôl iddo ddod adref.

DYMUNA Mr Goronwy Lewis, 18 Rhydfadog, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am eu holl caredigrwydd tuag ato tra bu'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Môn ac Arfon. Diolch hefyd i'r holl staff yn Ward Mona a Dwyfor. Diolch i bawb.

'SPECIALS' DEINIOLEN – AWST 1942



Rhes uchaf: J.M. Roberts; R.O. Roberts; E. Williams.
Ail res: T.J. Jones; R.T. Williams; P.C. Lynes; R. Jones.
Yn eistedd: R.O. Jones; T.H. Ingham; G.W. Roberts; O.H. Jones; T.D. Jones.
Gwaelod: J. Griffith; T. Evans.

DINORWIG

Gohebydd: O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

LLONGYFARCHIADAU i Dylan Griffiths, Foel, ar gyrraedd ei 21 mlwydd oed yn ddiweddar.

Hefyd llongyfarchwn Mr Kevin Fleming, 1 Maes Eilian, Dinorwig, ar ei benodiad yn athro yn ysgol uwchradd Caergybi.

MARW – Ddydd Mercher, Mehefin 15, 1983, bu farw Mrs Margaret E. Hughes, Groeslon Uchaf, Dinorwig, yn 81 mlwydd oed, yn ysbyty Môn ac Arfon.

DIOLCH – Dymuna Mr a Mrs Eifion Griffiths, Foel, ddiolch yn fawr i bawb am y cardiau, anrhegion, ac arian a dderbyniodd Dylan ar ei ben-blwydd yn un ar hugain.

COFION – Da oedd clywed lleisiau Mr Harri Lewis a Mrs Elizabeth Lewis o Awstralia, gynt o Bryn Sardis, Dinorwig, yn sgwrsio gyda Mr Alun Williams, B.B.C. ar y radio y bore o'r blaen. Ein cofion atynt a'r teulu.

DYMUNIADAU DA i Miss Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig, ar ei llwyddiant gyda'i arholiadau yng Ngholeg Cerdd Manceinion.

HYSBYSIAD – Bydd Miss Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig, yn ymddangos ar S4C ddydd Sul, Gorffennaf 3ydd. Annette fydd yn cyfeilio i Mr Robert Wyn Roberts (Bontnewydd) ar y rhaglen 'Cenwch yn Llafar'.

EIN COFION at y rhai sy'n cwyno.

SIED BRAICH CHWAREL DINORWIG 1928-29



O'r chwith i'r dde: Rhes ôl - Idris, Waunfawr; Dick Stabla; Dick Pen Golwg. Rhes flaen - Guto Crawia; Owen Jones, Pen-bwlch, Cwm-y-glo; Moss Williams, Wylla, Penincline.



Diolch i Mr Moss Williams, Wylla, Penincline, Deiniolen am y llun o Ysgol Dinorwig 1924-25.

CYNGOR SIR GWYNEDD

Mae Cyngor Sir Gwynedd yn paratoi arddangosfa o nwyddau a gynhyrchir yng Ngwynedd y gellir eu defnyddio yn y cartref. Dangosir y cynnyrch yn Arddangosfa Gwynedd ar faes yr Eisteddfod yn Llangefni o 30 Gorffennaf hyd 6 Awst, 1983, ac yna mewn nifer o fannau eraill yn ystod Awst a Medi. Gall cwmnïau sydd â diddordeb mewn cymryd rhan yn yr arddangosfa trwy ddarparu eitemau addas ar fenthg dros y cyfnod hwn gael gwybodaeth bellach oddi wrth:

Dr E. Lloyd Evans,
Swyddog Datblygu Economaidd,
Cyngor Sir Gwynedd,
Swyddfa'r Sir,
Caernarfon.
Gwynedd LL55 1SH
Rhif Ffôn: Caernarfon 4121, estyniad 313



**BECWS
DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

MERCHED Y WAWR - Nos Fawrth, Mehefin 14, aeth aelodau Merched y Wawr, Llanrug, ar daith ddirgel. Cafwyd noson arbennig yng nghwmni Mrs Mary Vaughan Jones, Waunfawr.

Cychwynnwyd drwy Waunfawr, Beddgelert, ac ymlaen i weld eglwys Beuno Sant, Penmorfa, lle mae cofeb Syr John Owen, Cfenennau. Syndod i amryw oedd clywed fod yr ardal mor amlwg yn hanes Prydain yn amser Glyndŵr ac wedyn yng nghyfnod y Rhyfel Cartref.

Ar bwys yr eglwys y mae crochendy Tyn Llan a chawsom gyfle i weld crefftwr wrth ei waith. Tro wedyn i ardal y Gest i ymweld â chartref Dafydd y Garreg Wen. Ar fryncyn gerllaw mae maen mawr a'r goel yn yr ardal yw mai hwn yw'r Garreg Wen roddodd ei enw i'r telynor. Roedd yn werth dringo yno a chael golygfa ardderchog o fynyddoedd Eryri ac Ardudwy.

Mwynhawyd pryd o fwyd ym Mwtyr yr Angor Glas, ar y cei ym Mhorthmadog. Yn absenoldeb Mrs Ann Llwyd, oherwydd anhwylder llywyddwyd y noson gan Mrs Bethanne Williams. Diolchodd i'r casglyddion at y Sbastig.

Pe bai gan unrhyw un ddiddordeb ym mhenwythnos Mai 1984 yn y Dyffryn, cysyllter â Mrs Mair Roberts, ffôn 830343. Diolchwyd i Mrs Mary Vaughan Jones ac i'r Trefnydd gan Mrs Evans, Lloc.

CLWB BLODAU'R GRUG - Cyfarfu'r Clwb yn y Sefydliad Coffa bawn dydd lau Mehefin 9.

Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Richard Owen, 1 Rhos Rug a theulu y diweddar Barchedig Gwynfor Williams. Croesawyd Mrs Maggie Lewis yn ôl ar ei dychweliad gartref o Awstralia.

Y gŵr gwadd oedd y Parch Aled J. Williams y rheithor, a chafwyd sgwrs addysgol a diddorol ganddo ar 'Glasynys' ar ddathlu canmlwyddiant Mudiad Rhydychain. Diolchwyd i'r Rheithor gan Miss Meirwen Roberts ac eiliwyd gan Mrs Roberts, Gwynndy. Rhoddwyd y te gan Mrs Inigo Jones, Eilonwy, Mrs A.M. Hughes, Bwthyn a Mrs S. Thomas, Min-y-Rhos a Mrs J.G. Jones, Ystad Tal y Bont.

Enillwyd y raffl gan Mr John Wyn Owen.

Dalier sylw mai ar Orffennaf 14eg y bydd y trip i Langollen yn mynd ac nid ar Orffennaf 7fed fel yr ymddangosodd yn y papurau wythnosol. Bydd y bws yn gadael sgwâr y Post am 12 o'r gloch ac yn mynd o gylch yr ardal.

HAFAN ELAN - Mae dwy o'n cymdogion wedi cael damwain yn ddiweddar, y ddwy ohonynt wedi torri eu breichiau. Dymunwn wellhad buan a chyflawn i'r ddwy, sef Miss M. Owen, Rhif 3 a Mrs M. Pritchard,

Gwybodaeth os gwelwch yn dda - enwau, dyddiad ac ati - Diolch yn fawr.



'Carel' Rhif 4.

TAITH Dosbarth Allanol y Brifysol - I ddarvoud cyfnod o dair blynedd o Archaeoleg dan gyfarwyddyd Dr John Llywelyn Williams, Bethesda, aeth y gweddill ffyddlon o'r dosbarth ar daith i weld henebion Ynys Môn, bawn Sadwrn, Mehefin 11 1983. Cychwynnwyd ym minibus y Brifysgol dros Bont Britannia gan ymweld â ffermdy Hendy, Llanfairpwll. Yno gwelwyd pen cerfiedig mewn tywodfaen coch o gyfnod y Celtiaid cynnar, ar wal yr ardd.

Aed ymlaen trwy Bentraeth a Benllech i fyny i Din Llugwy i weld hen sefydliad amaethyddol o gyfnod y Brythoniaid, ar safle amddiffynnol uwch traeth Dulas. Mewn cae gerllaw cafwyd golwg ar Siambr gladdu o'r cyn-oesoedd.

Caed gwib bleserus rhwng gwrychoedd drain gwynion hyd ffyrdd culion yr ynys, trwy Langefn i Gaergybi a thu draw iddo i Fynydd y Tŵr. Yno, buom yn dringo llethrau grugog i sylu ar batrwm amaethyddol yr ardal a sylwi ar olion amlwg y cytiau crynion, hen gartrefi trigolion cyntefig.

Rôl seibiant yng Nghaer Gybi Rufeinig i ddoto ar adeiladwaith y muriau, gyrrwyd arni i weld Tomen Gladdu Trefnath sy'n hynod o ddiddorol i'r sylwedydd craff. Oddiyno aed heibio i Faes Awyr y Fali, gan aros wrth Llyn Cerrig Bach i glywed hanes y darganfyddiadau o Oes yr Haearn a welwyd pan ddisbyddwyd y mawn o waelod y llynnoedd wrth sefydlu'r maes glanio i awyrennau yr R.A.F., ar ddechrau'r Ail Ryfel. Ymddengys y byddai'n arferiad gan ryfelwyr y Brythoniaid i offrymu eu harfau, cerbydau rhyfel a'u trysorau i dduwiau y dŵr a'r lleithdroedd. Felly y cadwyd hwy yn y mawn mewn cyflwr da.

Diolchwyd i'r Dr Llywelyn Williams am ei gyfraniad difyr a diddan rôl dychwelyd i Lanrug gan Mr Oswald Davies, Cadeirydd y Dosbarth.

LLONGYFARCHIADAU gwresog i Mr Iwan Roberts, Pendyffryn ar ei benodiad i swydd prifathro Ysgol Llangybi. Ar hyn o bryd mae Iwan yn aelod o staff Ysgol Dolbadarn, Llanberis.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL - Aeth aelodau'r Gymdeithas ar eu taith hanesyddol flynyddol, ddydd Sadwrn yr 11eg o Fehefin, gyda'r Parch W.O. Roberts, Manod fel hanesydd. Aed i Gapel Curig, Dolwyddelan, Ffestiniog, Trawsfynydd a gorffen y daith yn y Bala.

Talwyd diolch i'r Parch W.O. Roberts, ac i'r swyddogion am eu gwaith yn ystod y tymor, gan Miss Megan Humphreys, Cadnant.

Mae'r Pwyllgor eisoes wedi cyfarfod i drefnu rhaglen gogyfer â 1983-84.

O'R EISTEDDFOD GENEDLAETHOL '57



Dyma lun o **Barti Meim Sefydliad y Merched, Llanrug**, a enillodd y wobwr gyntaf yn Eisteddfod Genedlaethol Llangefni yn 1957. Buont yn perfformio 'Gwledd Belsazzar'. Canmolwyd hwy gan y beirniad, Miss Nora Isaac, a hefyd gan Mr Hugh Griffith yr actor. Y cynhyrchydd oedd Mrs Owen, Rochdale House. Dyma enwau'r rhai yn y llun: Mrs G. Lewis (Disgwylfa gynt, Penisarwaun yn awr), Mrs Beryl Roberts (Awelon gynt), Mrs Inigo Jones (Eilionwy), Miss Morris (Gwydryn Newydd gynt), Mrs B. Owen (Crug), Mrs Morris D. Jones (Awelon gynt), Mrs Nesta Pritchard (Glanfa), Mrs Owen (Rochdale House gynt), Miss Meinwen Roberts (Ganllwyd, Bryn Moelyn), Mrs E. Thomas (Dolwar). **Ar y llawr mae:** Mrs L. Harman (Venice), Mrs Myfi Roberts (Plastirion), Mrs W.A. Jones (Y Dalar Deg), Mrs Beryl Thomas (Gerallt).

Y VICTRIX ARALL

Dymuna Joan Rees Williams, Y Gors, Allt Riwth, Pontrhythallt, longyfarch Melanie Sellars, am ranu gyda hi y record o ennill Victrix Ludorum Ysgol Brynrefail am bedair blynedd yn olynol. Enillodd Mrs Williams ei hun hi o'r flwyddyn 1939 i 1942.

Safodd ei record am y naid uchel hefyd am chwarter canrif.

Yn y darlun, gwelir Joan Rees Edwards, fel yr oedd hi'r adeg honno, yng ngardd ei chartref ym Mron Eilian, Dinorwig, yn 1939.

Mae hi'n fam i Siôn Rees Williams sydd yn ddisgybl yn yr ysgol ar hyn o bryd.



Melanie Sellars - Victrix Ludorum 1980-1983



Joan Rees Edwards - Victrix Ludorum 1939-42

GWILYM JONES Monumental Works LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWR LLEOL

Yr Hen Gapel Bach 1862-1962

Yr ail o erthyglau Mrs Enid Jones, Talysarn am hanes yr achos yng nghapel Fachwen

"Mi garaf yr hen gapel bach
Ac fe'i caraf tra byddaf fi byw.
I'r hen fro gwnaeth ei ran
Cans dyna y fan
Clywais gyntaf mai Cariad yw Duw."

Geiriau Rol Williams allan o Bysus Bach y Wlad.

id wyf yn cofio i mi gael fy ngorfodi i fynd i'r capel - llawer tro y dymunais aros gartre ond gwyddwn fod hynny yn groes i ddymuniad fy nhad, oedd yn flaenor yn y capel ers blynnyddoedd, ac ar un adeg ef oedd ysgrifennydd, trysorydd ac organydd y capel mewn cyfnod pan nad oedd gweinidog ar yr Eglwys. Felly nid oes gennyf unrhyw gof o fy nhad yn eistedd gyda mam a mi yn y llawr. Yn wir yn ifanc iawn tybiwn mai 'nhad oedd biau'r hen gapel bach nes i mi fentro gofyn iddo rhyw noson (ar ôl dadl rhyngof a'm ffrindiau ar y ffordd o'r ysgol) -

"Y chi piau capel y Fachwen ynte?"

ac yntau yn ateb yn ei ffordd bwylllog ei hun -

"Wel naci, wel di - Iesu Grist piau'r capel, edrych ar ei ôl o iddo Fo 'rydw i" - a dyna a wnaeth hyd y gallodd, yn ddistaw a dirwgnach.

Gan mai capel Dinorwig oedd y Fam Eglwys, unwaith y Sul y caem bregeth yn y Fachwen a hynny yn amrywio, am ryw reswm, i bregeth yn y bore, prynhawn neu'r hwyr. Ar adegau byddai dwy bregeth, a hynny meddai 'nhad am mai Y Fachwen oedd yn talu i'r pregethwr y Sul hwnnw. Pregeth y bore gan amlaf a gofiau, Ysgol Sul am ddau a Chyfarfod Gweddi, neu fel y gwelai'r blaenoriaid yn dda, yn yr hwyr - wrth hyn golygaf y caem Gyfarfod Canu lawer i nos Sul, yn dysgu tonau allan o'r Detholiad ar gyfer y Gymanfa yn Llanberis ym mis Mai; ar nos Sul arall byddai un wedi ei benodi i ysgrifennu papur ar hanes un o'r emynwyr a'i ddarllen yn y cyfarfod, ac yna trafodaeth ar yr hyn a ddarllenwyd. Dewiswyd tri blaenor arall i gynorthwyo'r achos yn nes ymlaen.

Y cof cyntaf o'r Ysgol Sul yw bod yn nosbarth Miss Maggie Roberts, Pen-y-Bryn, sy'n awr yn byw yng Nghaernarfon, ac yno, ar wahân i'r aelwyd gartref, y dysgais yr A.B.C., gan i mi fynychu'r Ysgol Sul ymhell cyn oedran dechrau yn yr ysgol ddyddiol. Yr hyn a gofiau orau am y dosbarth hwnnw yn sêr yr harmoniwm, yw cael anrheg o Gas Papur Sgwennu mewn lledr coch gan Miss Roberts ac mae hwn yn fy mediant hyd heddiw, yn cael ei gadw gyda rhyw barchusrwydd anesboniadwy - fel dolen gyswllt rhyngof a'r hen gapel bach.

Byddai Seiat bob nos Fercher a rhaid oedd i ni'r plant ddysgu emyn neu adnod y testun o'r Sul blaenorol i'w ddweud ar goedd. Nid oeddwn yn rhy hoff o'r Seiat yn enwedig ar noson braf yn yr haf. Seiat Cyfarfod Misol unwaith y mis, yn sôn am ystadegau tu hwnt i'm dirnadaeth i - "llith ariannol, sych" y galwodd Cynan hwy. Seiat brofiad y tro arall. Ni fyddai yn rhaid i ni'r plant ddweud adnod yn y Seiat hon ac ar ôl y gwasanaeth dechreuol deuai'r gweinidog i'r llawr i ofyn am adnod neu rhyw sylw arbennig gan yr oedolion. Byddwn wrth fy modd yn gwrando ar ambell un yn dweud ei brofiad, ac yn ei edmygu am fod mor ddewr. Gwyddwn nad oedd mam yn hoff o'r Seiat brofiad a chrynai fel deilen fel y nesai'r gweinidog at ein sêr ni, ac er iddi ddysgu adnod newydd, pan ddoi'r amser tyngedfennol, yr un ddwy linell o emyn a

16

ddeuai allan bob tro -

"Ni fethodd gweddi daer erioed
Â chyrraedd hyd y Nef"

Bu dynion galluog a blaenllaw yn Weinidogion ar eglwys y Fachwen. Y Parch Puleston Jones, y pregethwr dall; Morgan Griffith; R.H. Watkins ac Eifl Hughes. Dau weinidog yn unig a gofiau i yno, sef y diweddar Barch John Parry a aeth wedyn i wasanaethu yn Llanfechell, Môn, a'r Parch I. Bryn Williams a ddaeth yno tua 1943 - bu ef yno am gyfnod o amser. Mae Mr Williams a'i briod yn awr yng Nghyffylliog ger Rhuthun, ac er ei fod wedi ymddeol, mae'n dal i bregethu, er nad yw'r iechyd wedi bod yn rhy dda yn ddiweddar.

Cyfarfod arall a oedd wrth fodd fy nghalon, oedd Cyfarfod Ysgolion, pryd y doi cynrychiolwyr yr Ysgolion Sul o wahanol eglwysy'r cylch i'r Fachwen - cynrychiolwyr o Rehoboth, Capel Coch, Gorffwysfa a Phreswylfa, Llanberis ac wrth gwrs Dinorwig. Byddai cyfarfod y cynrychiolwyr am 5 o'r gloch i drin a thrafod ystadegau'r Ysgol Sul am y flwyddyn flaenorol - ond cyfarfod yr hwyr aethai â'm bryd i. Byddai'r 'dynion diarth' yn cymryd drosodd fel pe tae, hwy oedd yn llywyddu, cymryd y rhannau arweiniol, 'agor y mater', ac yna arwain y drafodaeth ar y diwedd. Gan nad oedd aelodaeth y capel yn rhyw lawer ar ei gorau, byddai presenoldeb y 'dynion diarth' yn chwyddo'r gynulleidfa, a'r canu yn well nag ar ddiwrnod Cymanfa bron. Chwarelwyr oedd y rhan fwyaf ohonynt, a doedd cerdded o Nant Peris, a Llanberis ar hyd y llwybr oedd yn arwain heibio i 'hospital' y chwarel, yn ddim iddynt, ac yn ddieithriad byddai'r tywydd o'u plaid, a'r olygfa dros Lyn Padarn ar nos Sul braf ym Mai yn fwy na digon o dâl am eu hymweliad, a phob un yn tystio "mai da oedd iddynt fod yno". Ychydig o'r gwyr ymroddgar hynny sydd ar ôl erbyn heddiw a

"Gwag yw'r hen gapel bach
Lle bu'r saint yn eu tro

Yn ymbil drwy'r oesoedd yn daer,

ac yn "canu am glod Mab y Saer", ac er

"Nid yw'r bregeth ddim mwy
Ar wefusau y fro,

Na'r emyn na'r anthem fel cynt, gallaf i, fel llawer un arall dysio fod fy nyled yn fawr i'r hen gapel bach -

yno y dysgais sefyll o flaen cynulleidfa, ledio emyn a darllen Salm yn yr Ysgol Sul ac yn bennaf oll lle y dysgais mai cariad yw Duw.

"Mi garaf yr hen gapel bach
Ac fe'i caraf tra byddaf fi byw,
I'r hen fro gwnaeth ei ran

Cans dyna y fan
Clywais gyntaf mai cariad yw Duw."

Mrs Enid Jones,
Bryn Celli,
Talysarn, Gwynedd.

Ym myd yr adar

gyda Ieuan Williams

ADAR TRAMOR

Awn dros y môr yn yr erthygl hon. Mae cadw adar tramor ar gynnydd, a'r rheswm am hynny yn sicr yw fod cymaint o fathau, a'u bod, a siarad yn gyffredinol yn llawer mwy lliwgar na'r adar brodorol.

Mewnforiwyd miloedd ar filoedd ohonynt i'r wlad dros y blynnyddoedd, ond erbyn hyn mae'r adarwyr yn canolbwyntio ar eu magu o dan reolaeth, ac yn union fel gyda'r adar lleol y soniais amdanynt yn yr erthygl flaenorol, eu nod yw gwella eu safon cystadleuol.

Gan fod cymaint ohonynt, amhosibl fyddai dechrau disgrifio a rhoi hanes pob un gan eu bod yn amrywio o adar bychain fel y Zebra Finch (tua'r un maint â'r Titw Tomos) sy'n wreiddiol o Awstralia i fyny i'r Macaw (aderyn y cwrw enwog) sy'n dod o fforestydd yr Amazon.

Yn wahanol i adar Prydain, rhennir y rhai tramor i dair rhan. Yn ogystal â'r pigau meddal (softbills) a'r pigau caled (hardbills) y soniais amdanynt fis yn ôl, cawn yn yr adran yma hefyd bigau bachog teulu'r parrot. Nid oes a wnelo maint, lliw, na phreswylfod yr adar ddim â'r adrannau yma, gan fod y tri math ar gael ar wahanol gyfandiroedd.

Y rhai mwyaf poblogaidd, yn naturiol, yw'r pigau caled sy'n byw ar hadau, ac felly'n haws eu cadw. Rhai piwis braidd yw'r pigau meddal ac mae angen ffrwythau, pryfetach, mêl a nectar i'w cadw'n hapus, yn ogystal â gwres yn ystod tywydd oer, ond yn bendant dyma'r creaduriaid mwyaf ysblennydd o ddigon!

Mae teulu'r parrot yn gyfuniad i raddau o'r ddwy adran arall, gan eu bod yn bwyta hadau bras fel rhai'r sunflower, ac maent hefyd yn hoff eithriadol o ffrwythau, a phleser yn wir yw gwylio parrot yn bwyta afal gan afael yn dynn ynddo â'i droed a'i godi at ei big, yn hytrach na phlygu ato fel y mwyafrif o'r adar.

Mae'r rhelyw o'r adar tramor yn denu llygaid gyda'u lliwiau hyfryd, a buasai'n amhosibl disgrifio yr amrywiaeth a chyfuniad y lliwiau mewn ambell un gan eu bod yn anhygoel nes i



Parrot o eiddo Mr Geraint Pritchard, Cwm-y-glo, gyda'i big bachog yn dangos ei allu i ddefnyddio ei droed i'w helpu i godi ei fwyd at ei enau.

rywun eu gweld â'i lygaid ei hun. Ymysg y rhai trawiadol mae'r Gouldian Finch o Awstralia, gyda'i ben coch, gwddf du a glas golau, brest borffor a melyn, adenydd gwyrdd, a chynffon o las tywyll a gwyn. Dyna i chwi olygfa!

Cyfrinach magu y math yma o adar ydyw creu awyrgylch ac amgylchedd mor debyg ag y bo modd i'w cynefin naturiol, ac er bod rhai cenedlaethau o'r adar bellach wedi eu magu mewn cewyll, anodd eu newid o'u harferion cynhenid.

Dau sydd wedi ymdrechu'n galed, ac erbyn hyn wedi llwyddo i raddau helaeth i gyflawni hyn yw Mr Geraint Pritchard o'r Bwlch, Cwm y glo, a Mr Kenneth Jones a arferai drigo ym Methel, ond sydd erbyn hyn wedi symud i Gaernarfon. Mae gan y ddau yma ddiddordeb mawr yn yr adar tramor ac mae ymweliad â'u cartrefi yn agoriad llygad, hyd yn oed i adarwyr eraill.

Hoff gan yr adar yma eto ddigon o awyr iach, yn enwedig yn y gwanwyn a'r haf, a chyfrinach arall yw gofalu bod digonedd o ddeunydd iddynt nythu. Nodwedd unigryw gan adar o deulu'r Lovebirds yw eu medr o gario deunydd ar gyfer y nyth nid yn eu pig fel y rhelyw, ond yn hytrach ym mhlu eu hadenydd. Camp arbennig yw eu magu.

Os oes gan rywun flys cadw adar tramor, anogaf ef yn gryf iawn, gysylltu â rhywun profiadol cyn dechrau gan fod mwy o gamau gwag yn yr adran hon i'r dibrofiad nag yn anad yr un adran arall. Mae prisiau yn amrywio o £5 am Zebra Finch (sydd yn eithaf hawdd i'w fagu), hyd at £300 am un Aderyn y Si (Humming Bird) sy'n eithriadol ei gadw heb sôn am ei fagu.

Os am weld rhai o'r adar lliwgar yma, yna trip i'r Sŵ ym Mae Colwyn, neu'n well fyth i Gaer lle mae amrywiaeth godidog.



Mr Geraint Pritchard

'STEDDFOD YR URDD gan Goronwy Owen

Roedden nhw yn eistedd yn dwr bach, yng nghornel y pebyll ymgynnull, yng nghefn y Pafiliwn, yn pincio a chribo'u gwalltau. Hawdd oedd eu darganfod, gan eu bod yn ymyl y drws, a'u hacen wrth sgwrsio yn ddigon plaen. Cerddais atynt, a sefyll ger yr athrawes ifanc.

"Teis coch a gwyrdd; o ble 'dach chi'n dwad genod?"

"O Brynrefail."

Gwelwn gwestiwn yn eu llygaid. "Pwy ydi'r hen gono yma?"

Atebais y cwestiwn er na ofynnwyd ef.

"Un o hen hogia Brynrefail ydw i. Un o'r hen, hen hogia."

Chwerthin croesawgar. Roedd gennym gymal cyffredin.

"Faint ohonoch sy o Lanberis?" Pedair.

"Pwy ydi'ch tad a'ch mam?"

Hwn a hwn, neu hon a hon. Doeddwn i ddim callach. Roedd ambell i enw'n swnio'n adnabyddus, ond doeddwn i'n sicr o neb, cenhedlaeth wedi mynd a cenhedlaeth wedi dod.

"Ydach chi'n nabod fy nain i?", gofynnodd un bach doethach na fi o'r gornel.

"Be ydi 'i henw hi?"

Rhaid oedd i mi gyfaddef, hyd yn oed pe tai hi'r hogan ddela yn y plwy fod ei henw wedi diflannu i Ebargofiant. Trio eto, rhywun 'run oed â nhw efallai. Dewis un o'm teulu.

"Ycach chi'n nabod Steven Owen o Gwm Glo?"

"Y goli?"

"Ja"

"Ydyn. Ydach chi'n yncel iddo fo?"

"Na i'w dad o." Nawr roedd ein halmanaciau wedi synchroneisio. Roedden ni ar dir cyffredin a chawsom sgwrs fach am gerdd dant. Dymunais yn dda iddynt.

"Pob lwc i chi. Mi fyddai i mewn yn gwrando arnoch, a chofiwch ennill."

"Diolch".

Daeth cais i mi fynd â dwy ferch fach o Gaernarfon i'w llety yn y dre. "Dach chi'n siarad fel ni. O ble 'dach chi'n dwad?" Mae clustiau merched ifanc yn graff. Pryfocio tipyn arnynt, cyn dweud efallai fy mod wedi bod yn athraw ar rai o'u perthnasau yn Ysgol Higher Grade. Roedd ganddynt lawer mwy o ddiddordeb sut gar oedd gen i, ac efallai braidd yn siomedig nad oeddwn yn berchennog Rolls Royce. Ar yr un pryd, hyfryd oedd gweld mor groesawgar yr

ymgartrefodd y ddwy ifanc hefo dau bensynwr ac mor bell oddi cartra. Byddai'n hawdd credu eu bod yn nabod ei gilydd ers oesau ac yn gyfeillion mynwesol. Mae rhywbeth neilltuol mewn croeso Cymraeg.

Cyrraedd yn ôl i'r Pafiliwn, ac i'm sedd i wrando. Parti Brynrefail ddaeth ar y llwyfan gynta, i ganu gosodiad da, yn hynod o swynol; lleisiau ardderchog yn cyd symud mewn cynghanedd, ond roedd y ddau barti arall hefyd yn dda. Cawsom safon eithriadol. Cerddais allan, ac roeddynt yn eu cornel yn casglu'u dillad a'u paciau at ei gilydd. "Sut 'naethon ni ganu?"

"Yn ardderchog. Roedd hi'n bleser gwrando arnoch chi."


"Dach chi'n meddwl fod ni wedi ennill?"

"Os mai fi fyddai'r beirniad, mi rhown i chi'n gynta."

Roedden ni'n ffrindia rwan.

Lle od ydi maes eisteddfod. Dydach chi ddim yn gwybod be sy'n mynd i ddigwydd nesaf. Ar ôl siarad hefo'r merched, es draw i babell H.T.V., i siarad am y Coroni, neu'n hytrach, y diffyg coroni. Rhian Owen a Shan Gibbon yn canu deuawd, Arwel yn cyflwyno eitemau, a finnau'n dod â'm pwt bach i mewn. Tra'n aros fy nhrwn, a merch ifanc yn powdro fy nghorun moel, rhag iddo sgleinio, (mae'n dda mod i'n sgleinio yn rhywle) meddyliais fod Ardal Godre'r Wyddfa yn rhoi cryn liw ar y rhaglen o'r Maes y noson honno.

Tua 1927 y dechreuodd yr Urdd yn y pentre. Cofiaf ar anogaeth Miss Huws St. 3, fynd i festri Nant Padarn, ar noson rewlyd, wyntog, lle roedd Enid Mable Thomas yn egluro pwrpas y mudiad i ni. Rhyw wythnos wedyn, roedd Bob Lloyd Rallt Goch yn dod â fy mathodyn i mi, ac roeddwn yn aelod. Roedd 'na weithwyr brwdfrydig hefo ni'r plant. Yn Eisteddfod 1931 yng Nghaernarfon, cofiaf sefyll yn yr orymdaith yn Stryd y Palas, yn gweld dim ond Porth y Castell, ac yn mynd i mewn i'r Pafiliwn yn socian at ein crwyn. Yna daeth Eisteddfod Machynlleth. Mynd dros y Pass, a



thrw y Trawsfynydd, a'r glaw yn dymchwel i lawr. Gorymdaith arall yn cael ei bedyddio, a Lloyd George, o dan ymbarel uwch ben drws y Wynnstay yn cymryd y salwt.

Roedd Janet Evans, Gelli Hirbant wedi dysgu cân actol i ni. Stori Branwen oedd y testun, a'r cigydd oeddwn i. Ar wahan i ganu hefo'r lleill fy mhrif orchwyl oedd smalio rhoi clustan i'r ferch oedd yn chwarae rhan Branwen ac yna cilio i rhyw fwthyn pren oedd yng nghefn y llwyfan. Yn hwn, cuddiwyd poli parot wedi'i stwffio fel drudwen, a'm gwaith yn awr oedd gwrthio hwn allan ar weiren hir, a'i osod ar ysgwydd y frenhines druan. Hawdd, meddech chi, ond roedd rhaid i mi wyro a chadw o'r golwg, ac roedd yr aderyn a thuedd i fynd i'r naill ochr neu'r llall, ac weithia ar ben Branwen. Llwyddiant fu'n hymdrech ac fe gawsom wobwr.

Ryw wythnosau wedyn, aethom â'r un gân actol i Eisteddfod Llanrwst. Doedd lwc ddim efo ni tro yma, - colli, ond cyn cychwyn am adre, dyma'r Parch J.P. Davies yn troi atom ni, y tri bachgen oedd yn cymryd rhan, "Hogia, dowch chi yn ôl hefo mi, yn y car."

Austin Seven bach agored oedd ganddo, a doedd dim rhaid iddo ofyn i ni ddwywaith. Daeth â ni yn ôl trwy Nant Ffrancon. Cawsom weld a

rhyfeddu ar Tryfan a Chegin Diafol, am y tro cyntaf 'rioed, ac yna i lawr i Fethesda, rhyw ddinas hud, oedd bob amser wedi cuddio tu ôl i'r Elidir. Do, hefo'r Urdd y dechreuais weld Cymru, ac fe ddysgwyd llawer i ni blant, gan ddynion a merched caredig, pobl yn aml heb lawer o addysg, ond wedi'u trwytho yn niwylliant ac athrylith eu gwlad.

Dyna bleser gawsom ni fel plant. Dioch Enid Mable a Janet Evans, diolch J.P. a'r llu caredig eraill na ofynnodd 'run geiniog goch y delyn am roi eu hamser a'u hegni a'u gallu, i drosglwyddo y diwylliant digymharol a dderbyniasant gan eu tadau, i ni oedd yn dilyn ar eu holau.

Dyna bleser hefyd gawsom ni Bwyllgor Gwaith yr Eisteddfod, eleni, o weld cymaint o blant a phobl yn dod i Aberafan i roi sêl ar dair blynedd o baratoi. Oedd, roedd hi'n Steddfod dda, a'n harbawf o'i chynnal mewn Pafiliwn yn llwyddiant llwyr.

Ond beth oedd yr uchafbwynt?

I mi, clywed parti Brynrefails wrth gwrs, nid yn unig am eu bod yn rhoi datganiad campus, ond am fy mod yn gweld ffrwyth llafur y bobol a'm cododd i a'm cenhedlaeth, yn aeddfedu ym mhylant yr ardal heddiw.

Bobol mawr, mi rydw i'n dechrau mynd yn hen.

SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL

LLANBERIS 871354

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

GWLÂU SENGL O £39 I FYNY
GWLÂU DWBL O £75 I FYNY
DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'
O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC
- ALLWCH CHI Fforddio Prynu o Batrymau?

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL BRYNREFAIL

EISTEDDFOD YR URDD

Daeth llwyddiant i'r ysgol yn Eisteddfod yr Urdd, Nedd ac Afan, yn ddiweddar. Bu Sian Wyn Gibson a Rhian Owen yn fuddugol ar y ddeuawd dan 19. Cafwyd perfformiad gwych ganddynt ar y llwyfan. Hefyd daeth y Parti Cerdd Dant 15-19 yn ail - camp hynod o dda wrth gofio mai dyma'r tro cyntaf i'r parti presennol gyrraedd rownd derfynol y Brifwyl. Llonyfarchiadau genod a dalier ati! Hoffai'r genethod ddiolch yn arbennig i'r hyfforddwraig, Mrs Carys Jones, ac i Mrs Nansi Lovett am ei chymorth gyda'r cerdd dant.

OXFAM

Casglwyd dros £400 gan ddisgyblion yr ysgol wedi'r daith gerdded yng Nghoedwig Gwydir ar Fai 16. Bydd yr arian yn mynd i gronfa Oxfam. Diolch i bawb a noddodd y plant, a diolch i'r plant am eu hymdrechion.

GWEITHGAREDDAU DIWEDD TYMOR

Yn ystod pythefnos olaf y tymor bydd llawer o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau - yn cynnwys sgïo, canwio, mynydda, marchogaeth, gwynt fordio, dringo a hwylio. Bydd triplau yn mynd i Faes Artro a Gorsaf Niwcliar Trawsfynydd. Diolch yn fawr i'r athrawon am wneud y trefniadau.

FFARWELIO

Daeth yn amser ffarwelio â disgyblion ail flwyddyn y 6ed a rhai o'r 5ed flwyddyn. Pob hwyl i chi oll yn y dyfodol.

CYFARFOD ATHLETAU YSGOLION ARFON

Bu dros 60 o blant yr ysgol yn cystadlu. Dyma'r goreuon:
Dan 17: Michael Roberts (Cwm-y-Glo) - cyntaf Pwysau (torri record) a chyntaf Disgen; Dan 13: Nia Griffith (Llanberis) - cyntaf Picell (torri record); Dan 15: Petula Williams (Caernarfon, gynt o Lanberis) - cyntaf Naid Uchel (torri record); Dan 13: Alice Jones (Llanberis) - cyntaf 100m a 200m; Dan 13: Dylan Thomas (Llanberis) - cyntaf Pwysau; Dan 13: Dylan Owen (Llanrug) - cyntaf Picell; Dan 15 - Meirwen Williams (Penisarwaun) - ail Pwysau; Dan 17: Steven Owen (Cwm-y-glo) - ail Pwysau; Dan 17: Colin Saynor (Llanberis) - ail Picell; Dan 19: Lynne James (Llanberis) - ail Disgen; Dan 13: Nia Owen (Llanberis) - ail Pwysau; Dan 15: Gareth MacGuinness (Llanrug) - trydydd naid Driphlyg; Dan 13: Anthony Roberts (Llanberis) - trydydd naid Driphlyg; Dan 17: Michael Combes (Penisarwaun) - trydydd naid Driphlyg; Dan 13: Genethod - trydydd Ras Gyfnewid.

Dewiswyd pawb a ddaeth yn gyntaf ac yn ail i gynrychioli ysgolion Arfon yng Nghyfarfod Ysgolion Cynradd Gwynedd ar Fehefin 18. Dyma'r goreuon yn y cyfarfod hwnnw; Dan 17: Michael Roberts - cyntaf Pwysau (torri record), trydydd Disgen; Dan 13: Alice Jones - cyntaf 100m ac ail 200m; Dan 13: Dylan Thomas - cyntaf Pwysau; Dan 15: Petula Williams - ail naid uchel; Dan 13: Nia Griffith - trydydd Picell.

Mae Michael Roberts (Cwm-y-Glo) wedi ei ddewis i gynrychioli Ysgolion Gwynedd yn y Cyfarfod Cenedlaethol yn Llanelli ar Fehefin 25. Pob lwc Michael!



Dylan Thomas ac Alice Jones, enillwyr yng nghyfarfod Athletau Ysgolion Gwynedd.



Michael Roberts a dorrodd record taflu pwysau Ysgolion Gwynedd ac a ddewiswyd i gynrychioli Ysgolion Gwynedd yn Llanelli.

CRICED

Tlws ysgolion Gwynedd dan 14 oed - Rownd 1:
Brynrefail yn erbyn Ysgol Dyffryn Nantlle (gêm ugain pelawd); Dyffryn Nantlle 70 am 7 wiced mewn ugain pelawd; Brynrefail 71 am 7 wiced mewn 16 pelawd.

Rownd 2:

Coleg Dewi Sant Llandudno yn erbyn Brynrefail (gêm 25 pelawd): Coleg Dewi Sant 130 a 6 wiced mewn 25 pelawd; Brynrefail 130 i gyd allan mewn 25 pelawd.

Yr ysgol yn colli'r gêm am eu bod wedi colli mwy o wicedi na Choleg Dewi Sant.

Gêm gyfeillgar yn erbyn Ysgol Dyffryn Ogwen (dan 14 oed): Ysgol Dyffryn Ogwen 113 am 8 wiced mewn ugain pelawd; Brynrefail 110 am 7 wiced mewn ugain pelawd.

Gêm gyfeillgar yn erbyn Ysgol

Segontium Dan 13 oed: Ysgol Segontium 58 pob un allan; Ysgol Brynrefail 59 am 3 wiced.

ROWNDERI

Dyma ganlyniadau'r gemau a chwaraewyd yn yr ysgol nos Lun 20 Mehefin:

Blwyddyn gyntaf 8; Ail flwyddyn 8; Trydedd flwyddyn 13 a hanner; Pedwaredd flwyddyn 8.

Rownderi yn erbyn Ysgol Syr Huw Owen, Caernarfon. Enillodd y flwyddyn gyntaf eu gêm o 13 i 6 a hanner. Colli o 3 i 2 fu hanes yr ail flwyddyn mewn gêm dda iawn.

YMDDEOLIAD TAIR ATHRAWES



Miss Rhiannon Ellis, Mrs Pat Lloyd a Mrs June Matthews.

Ddiwedd y tymor hwn y mae tair athrawes yn gadael, dwy ohonynt wedi bod yma am gyfnod sylweddol. Yn 1949 yr oeddwn yn fachgen bach yn yr ail flwyddyn yn yr hen Ysgol Ramadeg pan ddaeth Miss Patricia Twyerould - yn ddiweddarach Mrs P. Twyerould-Lloyd ar y staff fel athrawes Gwyddor Tŷ. Bu'n dysgu Coginio a Gwnio drwy'r ysgol am gyfnod ond ar ôl symud i'r Ysgol newydd yn Llanrug dysgu gwnio yn unig a wnâi. Mae cyfnod o bedair ar ddeg ar hugain o flynyddoedd yn gyfnod go faith ac y mae Mrs P.T. Lloyd wedi dod erbyn hyn yn rhan sylfaenol o'r sefydliad fel petai.

Fe fu ac y mae yn hynod boblogaidd gyda chenedlaethau o enethod a edrychai arni yn aml fel rhyw fath o fodryb y medrent ddibynnu arni am gymwynas neu gyngor. Felly y cofir amdani gan y staff hefyd. Nid oes neb, ar y staff rwy'n siwr nad yw'n ddyledus iddi am ryw gymwynas neu'i gilydd. Fe fu bob amser yn siriol a hwyliog ac yr ydym i gyd wrth ddymuno ymddeoliad hapus iddi, yn siwr y bydd yn mwynhau ei rhyddid ond ar yr un pryd yn teimlo hiraeth ar ei hól bob hyn a hyn.

Apwyntiwyd Miss Rhiannon Ellis sydd hefyd fel Mrs P.T. Lloyd yn gyn-ddisgybl, yn athrawes Gymraeg gynorthwyol yma yn 1958. Fe fu Miss Ellis bob amser yn rhadlon a siriol gyda phlant a chyd-athrawon. Ar ôl

chwarter canrif o wasanaeth daeth yn amser iddi hithau ein gadael ac yr ydym yn dymuno ymddeoliad hapus iddi hithau.

Apwyntiwyd Mrs June Matthews yma yn 1973 fel athrawes Gelf gynorthwyol. Yr oedd yn athrawes a gymerai ddiddordeb o ddifrif yn ei phwnc a bu yn athrawes weithgar ac effeithiol. Dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd iddi yn y dyfodol.

W.E. THOMAS,
Prifathro.

Mae
G. JORDAN

CEFN ELAN LLANRUG

wedi prynu busnes

ERIC GOVER LLANBERIS

I fenthyg cymysgwyr concrit, cludo llwythi ysgafn, clirio safleoedd a sbwriel ac am dywod, gro, brics ynghyd â gwaith trydanol fel o'r blaen

Ffoniwch:
CAERNARFON 3581



I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...

Osmond W. Shaw

DEINIOLEN

Ffôn:

LLANBERIS 870545

Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch y bore

Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .




Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

Croesair Gorffennaf



AR DRAWS

1. Huno (5)
5. Enllib - rhan o rywbeth nad yw yma (5)
8. Anghenus (5)
9. Mae un goch ar faner Cymru (5)
10. Cwestiwn ynglŷn â hyd a lled neu nifer (5)
11. Cwrdd (5)
12. Fo - Beiblaidd (3)
13. Ffres (2)
14. Gŵyl (7)
16. "... gwningen fechan Yn eistedd ger y llwyn..." (3)
17. Cyfnod (3)
19. Hynod
23. "... Dduw sy'n maddau fel Tydi, Yn rhad ein holl bechodau ni?"
24. Yn y lle hwnnw (3)
26. Stori go fer yn cynnwys ffrwd (5)
27. Llawer (5)
28. Cerdd arwrol gan Homer (5)

29. Erlid (5)

30. Hin (5)
31. Coeden

I LAWR

1. Cytuno (7)
2. Ned yn gas. Mae wedi troi'n bysgodyn! (8)
3. Offeryn chwyth (6)
4. Rhodd i 8 ar draws (6)
5. Murddun (6)
6. Cwmni swmlyd? (4)
7. Naws (5)
5. Ceisiadau (8)
18. Ai yma y gwelir Sulwyn yn y farchnad?
20. 'Cymryd lle' (6)
21. Dychmygu (6)
22. Cochi (6)
23. Pobl bach! (5)
25. Archoll (4)

Un llythyren yw Ch, Dd, Ff, Ng, Ll, Ph, Rh, Th.

Anfonwch eich cynigion at Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug. Bydd £2 o wobwr i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu.

Atebion Croesair Mehefin

Ar Draws: 1. Distawrwydd 6. Atom 9. Enaid 10. Blewyn coch 11. Taflunydd 12. Cannu 14. Lamp ôl 16. Emyr 19. Lili 20. Wrth law 22. Wyres 23. Ymadawol 25. Tymhoraidd 26. Lawnt 27. Naddu 28. Unig-anedig

I Lawr: 2. Siarad lol 3. Ardal 4. Robin goch 5. Ywen ddu 7. Machlud haul 8. Llyncu mul 13. Tro trwstan 15. Melysion 17. Nawddogwyd 18. Tri ar ddeg 21. Cywain 24. Aflan

Enillydd: J. Williams, Pennant, Nant Peris



**45 Stryd Fawr
LLANBERIS**

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Pryd gorau'r fro

DYDDIADUR

Gwener, 1 - DEINIOLEN - Bingo yn Ystafell y Seindorf.

Taith Ddirgel Sefydliad y Merched. WAUNFAWR - Coroni Felicity yn Frenhines y Carnifal yn Neuadd yr Eglwys am 6.30. Disgo'r Carnifal. LLANBERIS - Clwb yr Henoed BETHEL - Gemau peldroed 5 bob ochr y Carnifal

Sadwrn, 2 - BETHEL - Carnifal LLANBERIS - Triplau Ysgol Sul PENISARWAUN - Triplau Ysgol Sul YR ARDAL - Pesda Roc ar Faes Rygbi Bethesda

Gorffennaf 3-9 - Wythnos Garnifal Deinolen

Sul, 3 - DEINIOLEN - Cymanfa Ganu y Carnifal

Llun, 4 - WAUNFAWR - Cystadlaethau Pel-droed 5 bob ochr y Carnifal ar gae'r Ysgol am 6.30. DEINIOLEN - Sefydliad y Merched.

Mercher, 6 - BETHEL - Gwibdaith yr Ysgol Feithrin i Bwllheli. WAUNFAWR - Gemau Giamocs y Carnifal yng nghae'r Ysgol am 6.30

Iau, 7 - LLANBERIS - Bingo Elusen dan nawdd Cymdeithas y Merched yng Ngwesty'r Grosvenor.

Gorffennaf 8-16 - Wythnos Garnifal Llanberis

Gwener, 8 - LLANBERIS - Bingo a Lluniaeth er budd Muscular Dystrophy yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30

DEINIOLEN - Bingo yn Ystafell y Seindorf

Sadwrn, 9 - DEINIOLEN - Carnifal WAUNFAWR - Carnifal a Mabolgampau

LLANRUG - Trip Ysgol Sul Pontrhyallt i Butlins, Pwllheli BETHEL - Sioe Golomennod yn y Sefydliad Coffa am 1.00

NANT PERIS - Trip Ysgol Sul i Rhyl

Sul, 10 - LLANBERIS - 'Noson o Gân' yng Nghapel Coch am 8.00

Gorffennaf 11-15 - Wythnos Garnifal Penisarwaun

Llun, 11 - PENISARWAUN - Bingo

Neuadd yr Eglwys

Mawrth, 12 - 6.30 Cae King PENISARWAUN - Pel-droed

Mercher, 13 - PENISARWAUN - Noson i blant ysgol gynradd - Pel-droed a rownderi

Iau, 14 - LLANRUG - Clwb Blodau'r Grug yn mynd ar drip i Langollen PENISARWAUN - Mabolgampau, Cae King

Gwener, 15 - DEINIOLEN - Bingo yn Ystafell y Seindorf

LLANBERIS - Clwb yr Henoed PENISARWAUN - 6.30 Carnifal

Sadwrn, 16 - PENISARWAUN - Gwibdaith Clwb y Merched i Landudno

LLANBERIS - Carnifal. Ras yr Wyddfa.

PENISARWAUN - 7.00 Helfa Drysor

Mawrth, 19 - LLANRUG - Helfa Drysor y Carnifal

LLANBERIS - Cyfarfod Cyhoeddus y Clwb Pel-droed yn Angorfa am 7.30

Mercher, 20 - YR ARDAL - Ysgolion yn cau dros wyliau'r haf

Iau, 21 - LLANRUG - Cymdeithas Chwiorydd Capel Pontrhyallt

Gwener, 22 - DEINIOLEN - Bingo yn Ystafell y Seindorf

NANT PERIS - Carnifal

Sadwrn, 23 - DEINIOLEN - Helfa Drysor Cangen Plaid Cymru

Gorffennaf 24-30 - Wythnos Garnifal Cwm y Glo

Sul, 24 - CWM Y GLO - Cymanfa Ganu yn y Tabernacl

Mercher, 27 - CWM Y GLO - Ymryson Dartiau y Carnifal

Gwener, 29 - DEINIOLEN - Bingo yn Ystafell y Seindorf

LLANBERIS - Clwb yr Henoed

Sadwrn 30 - CWM Y GLO - Carnifal

DYDDIADAU I'W COFIO

Gorffennaf 30 - Awst 6 - Eisteddfod

Genedlaethol Ynys Môn

Awst 12-13 - Ymryson Cŵn Defaid

Betws Garmon

Medi 5 - Ysgolion yn aildechrau

Llwyddiant tîm criced Dyffryn Peris

Llongyfarchiadau'r fro i dîm criced Dyffryn Peris ar eu llwyddiant yn erbyn tîm o athrawon Ysgol Dyffryn Nantlle yn eu gêm gyntaf ar ôl

ffurfio'r tîm - unrhyw un sydd â diddordeb mewn ffurfio tîm a chwarae yn eu herbyn, cysylltwch â Trystan Larsen (Llanberis 870533).

CWMNI YSWIRIANT Y PRUDENTIAL CYF.

Y Cwmni Yswiriant sydd wedi bod yn rhoi gwasanaeth i bobol y fro ers tros 100 mlynedd

Dyma restr o'r goruchwylwyr yn y gwahanol bentrefi o'r fro:

LLANRUG, WAUNFAWR, CEUNANT, TAN-Y-COED a BETWS GARMON

GARETH JONES

Glyn Ceris, Waunfawr.
(Ffôn Waunfawr 392)

LLANBERIS, NANT PERIS, CWM-Y-GLO, BRYNREFAIL a DINORWIG

WILLIAM ROBERTS,

Hyfrydle Road, Capel Coch,
Llanberis (870471)

DEINIOLEN, PENISARWAUN, SEION, LLANDDEINIOLEN, TREGARTH, M. LLANDEGAI

JOHN R. JONES

Clarke Terrace, Ffordd Llanberis,
Caernarfon (4734)

RHOWCH GANIAD I'R 'DYN O'R PRW'
YNGLŷN Â'CH
HOLL ANGHENION YSWIRIANT

GWASANAETH AR
EICH AELWYD

Prudential

CHWARAEON

CYSTADLEUAETH 5 – bob ochr

Daeth 5 o dimau i Gae Peldroed Llanrug nos Wener, Mehefin 24 i gystadlu am Darian 5-bob-ochr fel rhan o weithgareddau wythnos carnifal Llanrug. Cafwyd gemau clos iawn ym mhob rownd, ond tîm 'B Penbont' oedd yn fuddugol, gan guro'r 'Krankies' yn y rownd derfynol.

Roedd y rheolau'n gofyn am dri mab a dwy ferch ym mhob tîm, a rhaid oedd i un aelod fod dros 40 oed. Yn y rownd gyntaf daeth tîm 'A Penbont' wyneb yn wyneb â thîm 'B Penbont' ac ar ddiwedd 10 munud cyffrous, roedd y sgôr 2-1 o blaid tîm B.

Tîm y Glyntwrog oedd gwrthwynebwy'r 'Krankies' yn yr ail rownd, ond er fod chwaraewyr profiadol gan y Glyntwrog, aelodau

ieuainc y 'Krankies' enillodd o 2-0. Roedd ail gêm yr ail rownd rhwng tîm Glanffynnon a thîm 'B Penbont', a bu bron i'r chwarae fynd i amser ychwanegol, ond sgoriodd y 'B' yn ystod y munud olaf i ennill o 2-1.

Roedd tîm 'B Penbont' yn ffefrynau i ennill yn hawdd yn y ffeinal, ond chwaraeodd y 'Krankies' yn dda iawn, gyda pherfformiadau ardderchog gan Steven Owen yn y gôl, a Stewart Williams. Kevin Williams sgoriodd y gôl i ennill y gêm, ac er i Patsy 'McEnroe' Cropper ddadlau'n ffyrnig â'r dyfarnwr ynglŷn â hawlio cic penalti, aros yn 1-0 i dîm Penbont a wnaeth y sgôr.

Cyflwynwyd y darian i gapten tîm 'B Penbont' gan Goronwy Roberts, Cadeirydd Clwb Peldroed Llanrug.




'Digwyddiad' cyffrous yn ystod y gêm bêl-droed rhwng y dynion a'r merched yn Eithin Duon, Llanrug ddechrau Mehefin. Cafodd y dynion stîd iawn, weithiau'n llythrennol fel y gwelwch! Casglwyd £103 at achos Mencap.

ARWYDDO I WATFORD




Dyma aelodau presennol tîm Deiniolen sy'n chwarae yng Nghynghrair Gwyrfa'i ers 1967. Yng nghanol y llun mae Malcolm Allen sydd newydd arwyddo'i brentisiaeth â Chlwb Watford. Ein dymuniadau da iddo i'r dyfodol.

CODI PWYSAU



Tony Owen, 3ydd ar Godi Pwysau, dosbarth 60kg ym Mhencampwriaeth Cymru.



Ieuan Owen o Glwb Codi Pwysau Llanrug — ail yn y Dosbarth 67 a hanner kg ym Mhencampwriaeth Cymru.

Ymddiheurwn am fod mor hwyr yn eich llongyfarch hogia, ond gwell hwyr na hwyrach.

LLONGYFARCHION I REDWYR ERYRI

Llongyfarchion i'r canlynol o Redwyr Eryri am eu buddugoliaethau yn ystod y mis:

Michael Roberts, Llanberis 1af dan 18 oed, Ras Farathon yr Eifl.

Kevin Prydderch, Llanberis 1af dan 18 oed, Ras Filtir Llangoed (cyntaf yn y ras agored hefyd). Adrian Owen, Waunfawr, 2il dan 18 oed, Ras Filtir

Llangoed.

Paul Prydderch, Llanberis, 1af dan 12 oed, Ras Filtir Llangoed.

Bydd rhai o'r aelodau'n cystadlu ym Mini Marathon yr Urdd o amgylch Llyn Tegid ar yr ail o Orffennaf, ac yna bydd pinal yn flwyddyn yn eu hwynebu pan ddaw y ras leol i'r amlwg, sef Ras yr Wyddfa.

CARNIFAL LLANBERIS



Nos Sul, Gorffennaf 10fed

NOSON O GÂN

yng Nghapel Coch am 8.00 o'r gloch

CÔR CADNANT PARTI LLEU

ARWEINYDD Y GÂN: Mr Robin Jones, Bethel

Nos Lun, Gorffennaf 11eg

GYRFA CHWIST – yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch

CYSTADLEUAETH PŴL – yng ngwesty Prince of Wales am 8 o'r gloch

Nos Fawrth, Gorffennaf 12fed

MABOLGAMPAU – Cae Dôl y Goeden am 5.45 o'r gloch

Nos Fercher, Gorffennaf 13eg

DISCO yn y Ganolfan

Plant ysgol gynradd – 6-7.30 o'r gloch

Plant ysgol uwchradd – o 8.00 hyd 10.30 o'r gloch

CYSTADLEUAETH DARTIAU – yng Ngwesty Dolbadarn am 7.30 o'r gloch

Nos Iau, Gorffennaf 14eg

BINGO – yn y Ganolfan am 7.30 o'r gloch

Nos Wener, Gorffennaf 15fed

NOSON WERIN ar lawnt Gwesty'r Grosvenor, Stryd Fawr am 7.00 o'r gloch

PARTI'R GWRYCH BWCHADANAS HOGIA LLANDEGAI



Dydd Sadwrn, Gorffennaf 16

Y CARNIFAL

Yr orymdaith yn gadael Swyddfa'r Post am 12.30

***BALŴN AER POETH *CEIR 'VINTAGE'**

***CEFFYLAU *DAWSWYR MORUS**

***HUFENIA *CŴN POETH**

***BARGEINION LU *LLUNIAETH GEMAU FIL**



RAS YR WYDDFA

Yn cychwyn o

Bont y Bala 3.30 o'r gloch

